

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research


Rhif: 09/2012



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg



Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg

**Golygwyd gan:
Richard Thurston
Ceri Greenall
Rebecca Sarasin**

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Richard Thurston

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 82 5324

E-bost: Richard.thurston@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN 978 0 7504 7123 7

© Hawlfraint y Goron 2012

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r golygyddion ddiolch i:

Awduron y penodau yn Llywodraeth Cymru:

Michael Harmer, Joanne Starkey, Launa Anderson, Ceri Greenall, Huw Brain, Angharad Reakes a Glyn Jones.

Uned y Gymraeg a swyddogion eraill yn Llywodraeth Cymru am eu harweiniad a'u cyfraniadau.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg am ei sylwadau a'i gyfraniad.

Y sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth ac ymchwil.

Grŵp Cyngori'r Gweinidog am ei gyfraniad a'i sylwadau.

Yr Adolygwyr Cymheiriaid am eu cyngor a'u cyfraniad gwerthfawr:

Cefin Campbell – Sbectrwm

Dr Kathryn Jones: Iaith: Y Ganolfan Cynllunio Iaith

Dr Diarmait Mac Giolla Chríost – Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Colin Williams – Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Tabl cynnwys

1	Cyflwyniad.....	4
2	Cwmpas yr adolygiad a phwmpas y ddogfen hon.....	4
3	Canfyddiadau allweddol	5
4	Amcanion a methodoleg	7
5	Thema Un – Cymraeg yn y Gymuned.....	10
6	Thema Dau – Trosglwyddo'r iaith o Genhedlaeth i Genhedlaeth.....	16
7	Thema Tri – Plant a Phobl Ifanc.....	22
8	Thema Pedwar – Y Dinesydd – Cyflenwi Gwasanaethau	27
9	Thema Pump – Cymraeg yn y Gweithle.....	35
10	Thema Chwech – Cryfhau'r Seilwaith	39
11	I Gloi.....	50
12	Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg.....	51
	ATODIAD 1 – Amcangyfrifon bras o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl	54
	ATODIAD 2 - Y cyfanswm sy'n cael ei wario ar hyn o bryd yng Nghymru ar bolisiau ar gyfer y Gymraeg (heb gynnwys addysg).....	67
	Cyfeiriadau	68

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ac â chwe phrif thema'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg.
- 1.2 Yn [Atodiad 1](#) ceir papur sy'n rhoi amcangyfrif diweddar o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r papur hwn yn dilyn gwaith blaenorol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Jones, 2004¹) ac mae'n defnyddio methodoleg debyg.
- 1.3 Yng Nghymru mae gennym ddarlun cymharol fanwl o nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, a pha mor aml y maent yn gwneud hynny. Yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd oddeutu un o bob pump o'r rhai oedd yn 3 oed neu drosodd yn gallu siarad Cymraeg, er bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – sy'n fwy diweddar ond yn llai dibynadwy – yn amcangyfrif bod y nifer yn nes at chwarter y bobl hynny. Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, dywedodd 56.9 y cant o'r rhai a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd, tra dywedodd 3.6 y cant ohonynt nad oeddent byth yn defnyddio'r Gymraeg².
- 1.4 Fodd bynnag, mae'r gwaith ar gyfer yr asesiad sydyn hwn o dystiolaeth yn awgrymu bod diffyg arwyddocaol o dystiolaeth empiraidd ynghylch effaith cynlluniau unigol sy'n ceisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

2 Cwmpas yr adolygiad a phwrpas y ddogfen hon

- 2.1 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi braslun cryno o'r dystiolaeth a geir mewn perthynas â chynlluniau sy'n ymwneud â chwe thema Strategaeth y Gymraeg. Cynhaliwyd yr adolygiad ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a chafodd ei ddefnyddio i'w llunio. Cyhoeddir yr adolygiad ochr yn ochr â'r Strategaeth er mwyn ei gwneud yn glir pa dystiolaeth a gyfrannodd ati. Nid yw'n fwriad i'r ddogfen hon roi patrwm ar gyfer cynllunio ieithyddol na gwneud

¹ "Tarddiad amcangyfrif bras o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl"

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2010) *Annual Population Survey*. Colchester: Archif Data y Deyrnas Unedig

penderfyniadau ynghylch y Gymraeg yn y dyfodol. Y gobaith yw, er hynny, y bydd y dystiolaeth sydd ynddi yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu sylfaen o dystiolaeth a fydd yn helpu i werthuso effeithiolrwydd y Strategaeth a'r rhaglenni sy'n gysylltiedig â hi, o ran dylanwadu ar statws yr iaith a'r defnydd a wneir ohoni. Bydd hefyd yn werthfawr o safbwynt canfod bylchau yn y dystiolaeth, y gellir eu llenwi drwy ragor o ymchwil yn y dyfodol.

- 2.2 Dylid nodi nad edrychwyd yn benodol ar dystiolaeth yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod yr adolygiad hwn. Teimlid nad oedd hynny'n flaenoriaeth i'r adolygiad gan fod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gael yn barod a bod gwaith ar y gweill i ddatblygu dystiolaeth ar sail ymchwil a gwerthuso, fel rhan greiddiol o'r broses o roi'r strategaeth ar waith. Er hynny, mae addysg cyfrwng Cymraeg wrth gwrs yn ganolog i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i wella'r defnydd o'r Gymraeg, a cheir sawl cyfeiriad at ei phwysigrwydd mewn adrannau perthnasol o'r adolygiad.

3 Canfyddiadau allweddol

- 3.1 Mae'r adolygiad yn rhoi sylw i dystiolaeth sy'n awgrymu'r canlynol:

- Mae'n bosib bod angen cael cyswllt parhaus, gydol bywyd, ag unrhyw iaith fel y gall unigolyn gynnal yr iaith honno.
- Y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o gefnu ar y Gymraeg yw teuluoedd lle nad yw ond un rhiant yn siarad Cymraeg. Hefyd mae amgyffrediad y gymuned o statws yr iaith yn effeithio ar agweddau rhieni tuag at ddefnyddio'r iaith.
- Mae'r iaith 'cymuned' siaradwyr plentyn, sy'n cynnwys rhieni, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, athrawon a'r ysgol, yn dylanwadu ar yr iaith a siaredir gan y plentyn. Mae iaith rhyngweithio â ffrindiau yn cydberthyn yn glos â'r iaith y mae'r plentyn yn ei siarad, ac mae'n dylanwadu ar agweddau plant tuag at y naill iaith neu'r llall neu at y ddwy.

- Mae cynlluniau megis Twf wedi llwyddo i ddod â dwyieithrwydd i waith prif ffrwd bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Mae hefyd wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â manteision dwyieithrwydd.
- Gallai fod lle i gryfhau rôl Twf a'r Mudiad Meithrin o ran rhoi cymorth mwy ymarferol a dwys i rieni i'w helpu i greu Amgylchedd Dysgu yn y Cartref (ADC) sy'n hybu ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ond mae angen rhagor o ymchwil hefyd i'r ADC yng nghyd-destun caffael y Gymraeg.
- Mae'r blynyddoedd cynnar a blynyddoedd yr arddegau yn gyfnod hollbwysig o ran datblygu agwedd tuag at iaith leiafrifol, ac o ran pennu a yw'r unigolyn yn cynnal yr iaith honno.
- Ymddengys nad yw'r ysgol ar ei phen ei hun yn ddigon. Mae angen i'r iaith gael ei chefnogi yn y cartref (os oes modd) a thrwy weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach.
- Ychydig o dystiolaeth benodol sydd yna fod darparu gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol yn cynyddu defnydd o iaith neu ei statws. Fodd bynnag, ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos na fydd ieithoedd ond yn ffynnu os ceir cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd.
- Mae agweddau pobl yng Nghymru tuag at ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn rhai positif. Mae dros naw o bob deg siaradwr Cymraeg (gydag amrywiol lefelau o ruglder) o'r farn bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw.
- Ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae rhwystrau i'w cael o hyd o ran manteisio ar wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r prif rwystrau'n cynnwys diffyg cyflenwad o wasanaethau yn y Gymraeg, diffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg a diffyg ymwybyddiaeth fod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Gymraeg. Prin yw'r dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

- Diffyg hyder yw un o'r prif rwystrau sy'n atal staff rhag defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth eu gwaith. Ymddengys bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn gyfrwng llwyddiannus i gynyddu agweddau positif tuag at y Gymraeg ymhlith staff.
 - Dylid cryfhau seilwaith y Gymraeg trwy ganolbwyntio ar: ymgyrchoedd sy'n marchnata ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ymysg grwpiau iau; ei gwneud yn haws i fanteisio ar y cyfryngau a'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a'u gwneud yn fwy perthnasol; a manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg fel y we a'r cyfryngau cymdeithasol newydd.
 - Mae angen asesiad realistig o'r tebygolrwydd y bydd ymyriadau yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg, o ystyried y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar sail ymchwil i newid ymddygiad. Bydd angen i asesiad o'r fath ystyried graddfa – a math – yr ymyriad sydd ei angen i sicrhau'r fath newid ar lefel genedlaethol.
- 3.2 Canfyddiad allweddol y papur ystadegol ynghylch y newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yw hyn: ers dadansoddiad gwreiddiol Bwrdd yr Iaith Gymraeg mae effaith 'newid naturiol' yn debygol o fod yn wannach ac, yn fras, ceir tua'r un faint o 'enedigaethau' a marwolaethau ymysg siaradwyr Cymraeg. Serch hynny mae'r casgliadau'n dibynnu'n drwm ar dybiaethau ynghylch rhuglder adeg oedran ysgol. Mae colled flynyddol net yn dal i ddigwydd yn sgil allfudo. Amcangyfrifa'r papur fod hyn oddeutu 1,200 – 2,200 o siaradwyr Cymraeg rhugl, er ei bod yn amhosib pennu ffigur awdurdodol.

4 Amcanion a methodoleg

Cefndir

- 4.1 Cydnabyddir yn gyffredinol bod newid ymddygiad, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hynny, yn faes amlweddol a chymhleth (Dolan, 2006; Kolmuyss ac Agyeman, 2002). Nodwyd nad yw dyfarnu statws 'swyddogol' i iaith, ynddo'i hun, yn gwarantu y caiff ei defnyddio na'i throsglwyddo (Romaine, 2002). Mae defnyddio a throsglwyddo yn dibynnu hefyd ar y bri a roddir ar yr iaith; 'its position relative to that of other languages' (Grin et al,

2002). Oherwydd hyn, mae nifer o wledydd sydd ag ieithoedd lleiafrifol wedi mabwysiadu strategaethau a mentrau i geisio gwella gwybodaeth o'u hieithoedd, y defnydd a wneir ohonynt a'r bri sydd arnynt, yn hytrach na dibynnu ar statws swyddogol. Yng Nghymru, cafwyd nifer o fentrau i geisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn gwahanol agweddau ar fywyd. Fodd bynnag, nid yw mor glir i ba raddau y mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus.

Amcanion a methodoleg

- 4.2 Gofynnwyd i adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r dystiolaeth, gyda'r nod o lywio datblygiad y strategaeth ar gyfer y Gymraeg: 'Iaith Fyw: Iaith Byw'.
- 4.3 Mae Strategaeth y Gymraeg wedi'i rhannu'n chwe thema:
 1. Cymraeg yn y Gymuned
 2. Trosglwyddo'r Iaith o Genhedlaeth i Genhedlaeth
 3. Plant a Phobl Ifanc
 4. Y Dinesydd: Cyflenwi Gwasanaethau
 5. Cymraeg yn y Gweithle
 6. Cryfhau'r Seilwaith
- 4.4 I gael rhagor o wybodaeth am y chwe thema, trowch at Strategaeth y Gymraeg.
- 4.5 Dyma'r tri phrif gwestiwn ymchwil y ceisiodd yr adolygwyr eu hateb yng nghyswllt y chwe thema uchod:
 1. Pa mor berthnasol yw'r thema yng nghyswllt y defnydd a wneir o'r Gymraeg?
 2. Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau dan bob thema?
 3. Pa dystiolaeth a geir y gallai mathau eraill o ymyriadau/polisiau lwyddo? (yn cynnwys dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol)
- 4.6 Cafwyd dystiolaeth o:

- Arolwg llenyddiaeth gan Wasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru i gasglu'r ymchwil genedlaethol a rhyngwladol berthnasol a gynhaliwyd yn y 10 mlynedd diwethaf ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg neu yn Saesneg. Roedd yr adnoddau y chwiliwyd trwyddynt yn cynnwys erthyglau mewn cyfnodolion, papurau ymchwil, papurau cynhadledd, cyhoeddiadau'r Llywodraeth, sefydliadau, llyfrau;
 - Chwiliadau gan ymchwilwyr sydd â gwybodaeth arbenigol am y themâu;
 - Ymchwil gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ers 1996;
 - Ymchwil doethuriaeth a gefnogwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg;
 - Cymariaethau rhyngwladol a gasglwyd drwy chwiliadau a thrwy gysylltiadau ag ymchwilwyr yn y gwledydd hynny;
 - Ymatebion sefydliadau sy'n ymwneud ag ymyriadau, ar ôl mynd atynt i'w holi'n uniongyrchol er mwyn casglu tystiolaeth o effaith yr ymyriadau hynny.
- 4.7 Cynhaliwyd yr ymchwil ar gyfer yr adolygiad ym mis Awst a mis Medi 2011. Neilltuwyd pob thema i Ymchwilydd Cymdeithasol neu Economegydd yn Llywodraeth Cymru ag arbenigedd yn y maes penodol hwnnw. Cyfrannodd Ystadegwyr y Llywodraeth at holl adrannau'r adolygiad a chaiff yr ystadegau ategol allweddol sy'n berthnasol i bob thema eu cyflwyno ar ddechrau pob pennod. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o beidio â rhoi sylw i unrhyw ymchwil berthnasol, bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn adolygu'r adroddiad. Yn ogystal â hyn, yn ystod mis Medi 2011 cynhaliwyd adolygiad cymheiriaid arni gan bedwar o ymchwilwyr blaenllaw yn y maes. Roedd cylch gwaith y cymheiriaid yn caniatáu iddynt dynnu sylw at unrhyw dystiolaeth ychwanegol yr oeddent yn ymwybodol ohoni. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y golygyddion oedd penderfynu ar gynnwys terfynol yr adroddiad.
- 4.8 Ni ddefnyddiwyd methodoleg systematig o adolygu llenyddiaeth wrth gynnal yr adolygiad hwn. Ac er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr adolygiad mor gynhwysfawr â phosib, ni ellir gwarantu bod pob llenyddiaeth berthnasol wedi'i chasglu a'i hadolygu.

5 Thema Un – Cymraeg yn y Gymuned

Ystadegau ategol:

Yn ôl Cyfrifiad Poblogaeth 2001

- Dywedodd 20.8 y cant o'r bobl 3 oed a throsodd yng Nghymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn 2004-06:

- Roedd 58 y cant o siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg
- Roedd y ganran uchaf yng Ngwynedd, sef 83 y cant, a'r isaf yn Sir Fynwy, sef 13 y cant
- Ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, roedd y ganran a oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn cynyddu gydag oed. O'r siaradwyr rhwng 3 a 15 oed, roedd 47 y cant yn eu hystyried eu hunain yn rhugl, o'i gymharu â 71 y cant o'r siaradwyr hynny a oedd dros 65 oed
- Cymraeg oedd iaith y sgwrs fwyaf diweddar yn achos 59 y cant o siaradwyr rhugl. Roedd hyn yn amrywio o 71 y cant yng Ngwynedd i ychydig dan 5 y cant ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd.

Yn ôl Cyfrifiad 2001:

- Roedd 54 o gymunedau lle roedd dros 70 y cant o'r rhai 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Dyma 6.2 y cant o holl gymunedau Cymru. Roedd hyn yn cymharu â 92 o gymunedau, neu 10.7 y cant, yng Nghyfrifiad 1991.

Noder, fodd bynnag, fod Cyfrifiad 1991 yn gofyn 'Ydych chi'n siarad Cymraeg?' yn hytrach nag 'Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg', sef y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2001.

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

- 5.1 Mae tystiolaeth o bedwar ban byd, dros sawl degawd, yn dangos yn glir bod bywiogrwydd a pharhad ieithoedd bron yn ddieithriad yn dibynnu ar iddynt allu ennill rhywfaint o oruchafiaeth fel y cyfrwng cyfathrebu 'naturiol' mewn ardal ddaearyddol benodol. Mae dadansoddwyr iaith yn gwahaniaethu rhwng

amryw o feysydd (neu 'beuoedd') iaith (*domains*) sy'n arbennig o bwysig ar gyfer cynnal defnydd parhaus o iaith ac ar gyfer ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Yr amlycaf o'r meysydd hyn yw'r ymwneud rhwng plentyn â'i rieni, yn enwedig y fam, a'r iaith a ddysgir gyntaf iddo. Mae'r cymdeithasu ehangach sy'n digwydd gydol plentyndod â phlant eraill, yn ogystal ag oedolion yn y cartref, yr ysgol a'r byd o'i gwmpas, yn chwarae rhan bellach o ran 'normaleiddio' un iaith neu'r llall. Gall hyn fod drwy anghenraid neu (yn bennaf) drwy ddewis isymwybodol. Wrth i orwelion plentyn ddechrau ymestyn y tu hwnt i'r byd sy'n uniongyrchol o'i gwmpas, ac wrth i ddeunyddiau megis llyfrau a chyfryngau electronig ddod yn fwyfwy dylanwadol arno, bydd y naill iaith neu'r llall yn dod i ennill mwy a mwy o oruchafiaeth ym mywyd y plentyn. Archwilir goblygiadau hynny isod, mewn perthynas â'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â'r Gymraeg.

5.2 Mae'r broses hon, lle mae'r naill iaith yn ennill goruchafiaeth dros y llall, yn dal i allu caniatáu i'r iaith a ddefnyddir leiaf barhau i gael ei defnyddio mewn meysydd cyfyngedig. Enghraifft o hyn yw'r iaith a ddefnyddir rhwng mam a'i phlentyn neu, fel a ddigwyddodd yn hanesyddol yn achos y Gymraeg, yn y bywyd crefyddol. Hefyd, mae'n bosib y ceir carfanu ieithyddol ym mywydau cymdeithasol pobl sy'n byw yn yr un gymuned ddaearyddol. Cofnodwyd enghreifftiau o hyn gan Aitchison a Carter (2004) ymhlith siaradwyr Saesneg uniaith (o Loegr yn bennaf) a siaradwyr Cymraeg dwyieithog mewn cymunedau gwledig yn y Gorllewin.

5.3 Gall hyn awgrymu y bydd yr iaith leiafrifol neu'r iaith dan fygythiad yn goroesi'n hwy nag y byddai fel arall, drwy weithredu o fewn byd cymdeithasol cyfyngedig. Serch hynny po fwyaf o'r iaith drechaf sy'n treiddio i'r byd cymdeithasol hwnnw, mwyaf anodd fydd hi i gynnal yr iaith leiafrifol. Yn amlwg, mae presenoldeb poblogaeth sydd ddim ond yn gallu siarad yr iaith leiafrifol yn debygol o helpu'r iaith i oroesi. Casgliad cyffredin ymhlith ymchwilwyr academiaidd yw bod dwyieithrwydd yn aml yn gam tuag at ddirywiad a diflaniad ieithoedd, fel yn achos y Fanaweg a'r Gernyweg. Fodd bynnag, fel y mae Fishman (1991) yn ei gynnig, os bydd ffiniau cadarn yn datblygu rhwng meysydd penodol, a'r naill iaith a'r llall yn cael ei 'chlymu' at feysydd arbennig o fywyd cymdeithasol, gall dwyieithrwydd sefydlogi. Fel

uchod, mae crefydd yn cynnig enghreifftiau posib, megis yn y defnydd a wneir o'r Arabeg, y Syrieg a'r Hebraeg fel ieithoedd litwrgaidd ymhlith cymunedau sy'n defnyddio ieithoedd eraill ym mhob cyd-destun arall.

- 5.4 Mae'r defnydd a wneir o iaith yn yr ardal *ddaearyddol* lle mae siaradwyr Cymraeg yn byw yn parhau i fod yn hynod o bwysig (Jones, 2007) gan ei fod yn dylanwadu ar y cyfle i siarad Cymraeg (Enparantza, 2001), ar ffurfio rhwydweithiau, ac ar ffurfio aelwydydd/teuluoedd (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005).
- 5.5 Serch hynny yn achos llawer o bobl, yn enwedig y genhedlaeth ifanc, mae natur rhwydweithio cymdeithasol yn newid. Mae mwy o gyfathrebu yn digwydd o hirbell drwy gyfryngau electronig a rhwydweithiau cymdeithasol. Gall y bobl y maent yn ymwneud â hwy fod yn fwy gwasgaredig – yn wir gallant fod mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn golygu bod 'lle' yn dod yn llai ac yn llai pwysig. Hefyd, mae hyn yn tanlinellu arwyddocâd cynyddol yr iaith a ddefnyddir ar y rhyngrwyd ac ymhlith 'cymunedau diddordeb' y gallai eu haelodau fod yn byw ymhell iawn oddi wrth ei gilydd.
- 5.6 Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at y problemau canlynol sy'n berthnasol i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gymuned:
- Y problemau dirfawr sy'n gysylltiedig â'r gyfradd isel o drosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg.
 - Y darnio a'r erydu cyflym sy'n digwydd i'r ardaloedd hynny yn y Gogledd a'r Gorllewin lle mae'r Gymraeg yn brif iaith (Y Fro Gymraeg), drwy fewnfudiad helaeth ac allfudiad carfannau dethol o'r boblogaeth, yn enwedig pobl ifanc.
 - Y defnydd prin iawn a wneir o'r Gymraeg y tu hwnt i dir yr ysgol ymhlith llawer o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn diwylliant hynod Seisnigedig.
- 5.7 Ceir tystiolaeth gadarn bod defnydd oedolyn o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymunedol yn dibynnu ar gyswllt parhaus â'r iaith ar ôl gadael yr ysgol. (Gathercole a Thomas, 2009). Fel y dywed Baker yn Thomas a Roberts (2011):

“Informal influences within school and pervading Anglicising influences out of school (e.g. TV, ‘pop’ culture, the information technology revolution) soon provide skills in the majority language and enculturation into English and American value-systems. In a major sense, bilingual education alone cannot reverse language trends. There needs to be other support mechanisms for the language, from cradle to grave....(Welsh) needs to penetrate an individual’s whole way of life....and be present in everyday active, participatory culture”

- 5.8 O ganlyniad naturiol i’r broses o dyfu i fyny, mae gwead ieithyddol y diwylliant y mae unigolyn yn cymryd rhan ynddo o ddydd i ddydd, yn y man lle mae’n byw, yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y clymau ag ardaloedd daearyddol yn llacio oherwydd newid technolegol a’r cynnydd mewn mudoled.

Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau sy’n berthnasol i’r Gymraeg yn y gymuned?

- 5.9 Mae *laith Fyw: laith Byw* yn crynhoi nifer o ymyriadau arfaethedig, a rhai sydd eisoes ar waith, i atgyfnerthu sefyllfa’r Gymraeg fel iaith gymunedol. Gellid dadlau y byddai bron unrhyw ymyriad llwyddiannus i annog dysgu a defnyddio’r Gymraeg yn help i gyrraedd y nod o sicrhau bod y Gymraeg yn ‘iaith gymunedol’, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol.
- 5.10 Fodd bynnag, o’r asesiad sydyn hwn o dystiolaeth, ymddengys mai prin yw’r dystiolaeth o werthusiadau effeithiolrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o’r ymyriadau penodol presennol i hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg yn y gymuned. Eithriadau i’r rhain yw astudiaethau’r Mentrau Iaith, gan gynnwys yr un a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Jones a Ioan, 2000) ac a gyhoeddwyd yn 2000, a dadansoddiadau academaidd a phroffesiynol o swyddogaeth Mentrau Iaith (Campbell, 2000). Yn fwy diweddar, mae Glyn (2010) wedi llunio dadansoddiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd mentrau cymunedol, yn enwedig Mentrau Iaith. Un bwlch arbennig o arwyddocaol yw’r diffyg gwerthusiad o effeithiau canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn cefnogi parhad y Gymraeg fel iaith gymunedol. Hefyd, prin yw’r dystiolaeth hyd yma bod yr iaith yn cael ei ‘phrif ffrydio’ i gynlluniau datblygu

neu adfywio cymunedol drwy gyfrwng Cymunedau yn Gyntaf, fel yr oedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2010 ynglŷn â Strategaeth y Gymraeg yn ei ragweld (Pearce, 2008).

- 5.11 Yn nadansoddiad Williams o *Iaith Pawb* yn 2004, mynegwyd sawl pryder difrifol ynghylch a oedd unrhyw fodd i'r camau gweithredu yn y Strategaeth gyflawni ei holl nodau eang, sef:
1. Cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg 5 pwynt canran erbyn 2011, o waelodlin Cyfrifiad 2001
 2. Atal y dirywiad yng nghymunedau'r fro Gymraeg, yn enwedig yn y rhai hynny lle mae yn agos at 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg
 3. Cynyddu canran y plant mewn addysg Gymraeg cyn-ysgol
 4. Cynyddu canran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith
 5. Prif ffrydio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- 5.12 O ran datblygu'r Gymraeg fel 'iaith gymunedol', mae'n debyg mai nodau 2 a 4 yw'r rhai mwyaf arwyddocaol. Dylai rhywfaint o dystiolaeth ynglŷn â rhai o'r nodau fod ar gael yn fuan yn sgil canfyddiadau Cyfrifiad 2011, er y bydd hi'n anodd asesu cyfraniad y polisi cenedlaethol at unrhyw newidiadau.
- 5.13 Roedd yr astudiaeth yn cwestiynu a ellid disgrifio'r cynlluniau a gasglwyd ynghyd dan *Iaith Pawb*, gan gynnwys y rhai yr oedd disgwyl i awdurdodau lleol eu cyflawni, fel rhai oedd yn rhan o gynllun neu strategaeth iaith genedlaethol, neu fel rhai a oedd â'r potensial i fynd i'r afael ag erydiad y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, yn y gymuned ac yn yr ardal ehangach. I ategu hynny, roedd yr astudiaeth yn tynnu sylw at ostyngiad o 2 y cant rhwng 1991 a 2001 yn nifer y plant oedd yn siarad Cymraeg ac oedd yn byw naill ai mewn teuluoedd oedd yn siarad Cymraeg neu deuluoedd lle roedd un o'r rhieni yn siarad Cymraeg. Er y bu cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg ac sydd â rhieni di-Gymraeg (o ganlyniad i dwf addysg cyfrwng Cymraeg), dyma un o honiadau Williams:

"..severe difficulties with the notion that an education system alone can produce the requisite ethnolinguistic vitality to sustain a semi-autonomous Welsh-medium culture".

5.14 Un fenter addawol, yr ymddengys ei bod yn cael dipyn o lwyddiant o ran mynd i'r afael â throsglwyddo iaith o fewn y teulu, yw Twf (Edwards a Newcombe, 2006). Trafodir y rhaglen hon o dan thema 3 isod. Yn ogystal â hynny, rhoddir cefnogaeth gyson i nifer helaeth o gyrff a mudiadau cymunedol, megis Urdd Gobaith Cymru, y Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Ffermwyr Ifanc a'r papurau bro. Ymddengys bod y rhain yn bwysig o ran helpu i gynnal y gwead cymdeithasol lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng mynegiant bob dydd ac sy'n rhan o hunaniaeth ddiwylliannol llawer o bobl mewn sawl rhan o Gymru. Mae'r gyrff a'r mudiadau hyn hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i siaradwyr ddefnyddio'r iaith bob dydd a chynyddu eu hyder a'u rhuglder, er na chanfuwyd unrhyw werthusiadau ffurfiol o'u heffaith ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg.

5.15 Fodd bynnag, mae angen gweld y camau gweithredu hyn, sy'n ceisio helpu i gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol, yng nghyd-destun y grymoedd sy'n erydu'r iaith. Un o'r grymoedd pennaf yw'r newidiadau i gyfansoddiad demograffig ac ieithyddol sawl rhan o Gymru, gan gynnwys y newidiadau sy'n deillio o effeithiau mudo a thrawsnewid economaidd. Ond mae'n anodd iawn i bolisi Llywodraeth Cymru gael llawer o ddylanwad ar hyn.

6 Thema Dau – Trosglwyddo'r iaith o Genhedlaeth i Genhedlaeth

Ystadegau ategol:

Cyfraddau trosglwyddo (yn ôl Cyfrifiad 2001):

- Yn achos cyplau lle'r oedd y ddau riant yn siarad Cymraeg, roedd 79 y cant o blant 3 oed yn gallu siarad Cymraeg
- Yn achos teuluoedd un rhiant lle'r oedd y rhiant (benywaidd) yn gallu siarad Cymraeg, roedd 47 y cant o blant 3 oed yn gallu siarad Cymraeg
- Yn achos cyplau lle'r oedd un rhiant yn unig yn gallu siarad Cymraeg, roedd 37 y cant o blant 3 oed yn gallu siarad Cymraeg os oedd y fam yn siarad Cymraeg, a 29 y cant os mai'r tad oedd y siaradwr Cymraeg
- Yn 2001, roedd 7 y cant o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg ac yn byw mewn cartrefi lle gallai'r Gymraeg fod yn brif iaith gan fod pob oedolyn yn y cartref yn gallu siarad Cymraeg.

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

- 6.1 Cydnabyddir yn gyffredinol bod rôl y cartref a'r teulu'n ganolog i 'drosglwyddo' ieithoedd lleiafrifol. Mae arbenigwyr ar gynllunio ieithyddol ym mhedwar ban byd yn cytuno bod cynyddu trosglwyddiad iaith o genhedlaeth i genhedlaeth yn angenrheidiol er mwyn cynnal iaith ac er mwyn iddi dyfu (Fishman, 1991). Ceir corff o dystiolaeth sy'n awgrymu mai'r teuluoedd ag un rhiant Cymraeg ei iaith yn unig yw'r gyfran o'r boblogaeth sydd fwyaf tebygol o gefnu ar y Gymraeg. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod statws canfyddedig yr iaith yn y gymuned yn effeithio ar agweddau rhieni tuag at y defnydd a wneir ohoni (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2007b).
- 6.2 Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod diffyg penodol o ran 'trosglwyddo'r Gymraeg o rieni i blant' yn enwedig mewn teuluoedd lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg a'r llall yn ddi-Gymraeg. Petai'r duedd hon yn parhau, byddai'n fygythiad difrifol i ddyfodol y Gymraeg (Jones, 2005). Nid yw data'r cyfrifiad, na data'r arolygon eang iawn cyffelyb, yn gwahaniaethu rhwng rôl y

teulu a rôl y system addysg yn y broses o gymdeithasoli iaith leiafrifol; fodd bynnag, mae ymchwil wedi'i chynnal i ymchwilio i'r cysylltiad rhwng y ffactorau hyn a'r defnydd a wneir o'r iaith. Mae Jones (2008) yn dangos bod defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg yn uwch yn achos pobl sy'n rhugl, pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd lle defnyddir y Gymraeg yn gyfartal neu'n bennaf fel prif gyfrwng yr addysgu, pobl sy'n byw ar aelwyd gyda siaradwyr Cymraeg, a phobl 11-15 oed o gymharu â phobl 16-29 oed. O ran trosglwyddo, canfu Jones fod byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn golygu cynnydd o ddwywaith a hanner yn y siawns y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd, a bod cael mam a thad sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn dyblu'r siawns.

- 6.3 Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod sawl ffactor yn dylanwadu ar arferion teuluoedd dwyieithog yng Nghymru o ran trosglwyddo iaith. Dengys ymchwil feintiol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2007b) bod rhai o'r ffactorau hyn yn ymwneud â'r iaith y mae'r rhiant yn dewis ei siarad â'r plentyn. Mae eraill yn ymwneud â thebygrwydd y plentyn o 'dderbyn' yr iaith. Canfu'r dystiolaeth fod 'dewis' iaith yn cael ei wneud yn reddfodol yn bennaf. Mae rhieni'n defnyddio'r iaith sydd fwyaf cyfarwydd iddynt, sef yr un y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Yn achos rhieni dwyieithog, mae iaith y partner arall yn allweddol o ran dylanwadu ar yr iaith a siaredir â'r plentyn. Mae'r rhai sydd â dau ddewis o ran iaith i'w siarad â'u plant yn dewis yr iaith sy'n 'cynnwys' y partner, nid yr un a allai allgau'r partner. O ran ffactorau sy'n dylanwadu ar y plentyn, dangoswyd bod eu 'cymuned o siaradwyr' yn dylanwadu ar yr iaith a siaredir gan y plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys rhieni, brodyr a chwiorydd, athrawon a ffrindiau ysgol. Canfu'r astudiaeth hon mai ffrindiau sydd bwysicaf o fewn cymuned siaradwyr y plentyn. Mae'r iaith y mae'r plentyn yn ymwneud â'i ffrindiau drwyddi yn cydberthyn yn glos â'r iaith y mae'r plentyn yn ei siarad. Mae hefyd yn dylanwadu ar agweddau plant tuag at y naill iaith neu'r llall, neu at y ddwy.

6.4 Cefnogir nifer o'r canfyddiadau hyn gan astudiaeth ansoddol ar wahân (Jones a Morris, 2005), sy'n nodi'r canlynol fel y prif ffactorau sy'n effeithio ar gymdeithasoliad y Gymraeg mewn plentyn:

- amser a dreuliwyd, ac arferion cyfathrebu, gyda rhiant sy'n siarad Cymraeg
- cyswllt â neiniau a theidiau sy'n siarad Cymraeg
- cefndir ieithyddol, gwerthoedd ieithyddol ac arferion ieithyddol rhieni a'u teuluoedd estynedig
- gwerthoedd ieithyddol rhieni a dylanwad y naill a'r llall o fewn y teulu

6.5 Dyma rai ffactorau sy'n cyfrannu at hyn:

- Trefniadau gwarchod plant a gofal plant
- Polisi addysg lleol a'r dewis o ran ysgolion
- Y gymuned
- Arferion y teulu o ran defnyddio'r teledu, DVDs, llyfrau a chyfrifiaduron

Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau i drosglwyddo iaith o genhedlaeth i genhedlaeth?

6.6 Y prif ymyriad ar gyfer mynd i'r afael â throsglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu yw 'Twf'. Mae Twf yn gweithio gyda phartneriaid megis bydwagedd ac ymwelwyr iechyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o fanteision dwyieithrwydd, ac maent yn ceisio newid patrymau ieithyddol eu grŵp targed, sef teuluoedd iaith gymysg.

6.7 Dangosodd gwerthusiad o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd prosesau Twf (Edwards a Newcombe, 2003, fod y prosiect wedi llwyddo i ddod â dwyieithrwydd i brif ffrwd gwaith bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Mae hefyd wedi cyfrannu at godi ymwybyddiaeth ynghylch manteision dwyieithrwydd. Fodd bynnag, un cafeat mawr sy'n perthyn i'r gwerthusiad yw nad yw'n ceisio mesur i ba raddau y mae'r prosiect yn newid patrymau trosglwyddo iaith y grŵp targed, er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n siarad Cymraeg gartref. Dyma reswm yr awduron dros hyn: *'[a] wide range of factors influence decisions about language choice and it is impossible to isolate the influence of Twf'*. Er enghraifft, mae ffactorau fel faint o addysg Gymraeg sydd ar gael yn lleol, statws yr iaith fel iaith gymunedol, dylanwad teulu a ffrindiau, agweddau

tuag at ddwyieithrwydd a hunaniaeth a hyfedredd a hyder ieithyddol i gyd yn cael eu nodi fel ffactorau allweddol sy'n gallu dylanwadu ar drosglwyddo iaith o fewn y cartref. Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o dystiolaeth lafar fod Twf yn cyfrannu at newid patrymau iaith ac yn helpu teuluoedd i wneud dewis gwybodus, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol. Roedd rhieni, gweithwyr ieuchyd proffesiynol a phartneriaid eraill oll yn gallu cyfeirio at achosion unigol o newid ymddygiad ieithyddol yn dilyn cyswllt â'r prosiect. Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso arall ar Twf yn 2008 (Irvine et al). Y nod oedd cyflwyno gwerthusiad o effaith Twf, ond nid yw'r adroddiad yn ceisio priodoli unrhyw un o'r newidiadau o ran trosglwyddo iaith y teulu i'r rhaglen. Yn hytrach, mae'n nodi goblygiadau'r canfyddiadau cyffredinol o ran trosglwyddo iaith yn y cartref a sut y gellid defnyddio ffactorau sy'n dylanwadu ar y rhyngwyneb rhwng y cartref a'r gymuned i wella'r rhaglen. Mae'r ymchwiliad hon yn galonogol, ond byddai'n fuddiol archwilio rhagor ar effaith y cynllun.

- 6.8 Diben y Mudiad Meithrin (a elwid gynt yn Mudiad Ysgolion Meithrin) yw hybu addysg a datblygiad plant dan bump oed drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cylchoedd meithrin ac mewn cylchoedd Ti a Fi (grwpiau ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant). Ei nod yw ehangu a chyfoethogi Cymraeg plant o gartrefi sy'n siarad Cymraeg a hwyluso dwyieithrwydd cynnar ymhlith plant sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg. Comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymchwiliad i archwilio effaith y Mudiad Meithrin ar ddatblygiad iaith Gymraeg ymysg plant cyn oed ysgol yn 2003 (Baker a Lloyd Robert). Dros un flwyddyn ysgol, cofnodwyd datblygiad iaith Gymraeg 1,259 o blant mewn 102 o gylchoedd, gydag arweinwyr cylch yn defnyddio graddfa bedwar pwynt (fel arfer, weithiau, yn dechrau, ddim eto) i fesur tri maen prawf – Gwranddo a Deall, Siarad a Chyfathrebu, a Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn y Gymraeg. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod y cylch yn helpu plant i wneud cynnydd sylweddol tuag at gaffael y Gymraeg. Dull gwerthuso 'cynt ac wedyn' a fabwysiadwyd gan yr astudiaeth hon, ac nid yw'n dwyn cymaint o bwysau â dull effaith arbrolfol, dyweder. Er hynny, mae'r canfyddiadau yn galonogol ac yn cyfrannu'n bositif at y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael yn y maes hwn.

6.9 Mewn rhai ardaloedd, ategwyd Twf gan raglen arall, 'Mae Dy Gymraeg Di'n Grêt', sy'n ceisio meithrin hyder a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ymhlith rhieni sy'n brin o hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg. Mae'r rhaglen ei hun ar raddfa gymharol fach, ac felly ni fu modd cynnal gwerthusiad cadarn, er bod yr asesiad ar ddiwedd y flwyddyn (Cyngor Iaith Hafan, 2010) yn dangos bod mamau'n siarad mwy o Gymraeg gyda'u plant ar ôl i'r prosiect orffen, yn ogystal â chyda'r teulu'n gyffredinol.

Pa dystiolaeth sydd yna y gallai mathau eraill o ymyriadau/polisiâu lwyddo?

6.10 At ei gilydd, nid yw'r asesiad sydyn hwn o dystiolaeth wedi canfod unrhyw ymyriadau llwyddiannus eraill y gellid eu defnyddio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae achos dros ailystyried ai cynllun Twf yw'r dull mwyaf priodol o gynyddu trosglwyddiad iaith yn y cartref. Er bod ganddo rôl o ran gwella ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd, mae amheuaeth a yw'r ymyriad yn ddigon dwys i gyfrannu at newid y patrwm o drosglwyddo iaith. Daw'r adolygiad diweddaraf o newid ymddygiad gan Dŷ'r Arglwyddi (2011) i'r casgliad bod mesurau anstatudol (gan gynnwys camau i ddylanwadu'n anuniongyrchol ar ymddygiad – '*nudges*'), ar eu pennau eu hunain, yn llai tebygol o fod yn effeithiol. Mae polisiâu effeithiol yn aml yn defnyddio amrywiaeth o ymyriadau.

6.11 Un elfen yr ymddengys nad yw Twf wedi mynd i'r afael â hi yn ddigon manwl yw ansawdd yr Amgylchedd Dysgu yn y Cartref (ADC). Yn y sylfaen dystiolaeth ehangach ynglŷn â datblygiad cynnar plentyn, mae'r ADC yn fesur cyfansawdd o ffactorau sy'n galluogi plentyn i brofi/ymarfer iaith a phrofi ysgogiad i wella eu datblygiad gwybyddol (er enghraifft, edrych ar lyfrau, darllen storïau, adrodd hwiangerddi a chwarae gemau i adnabod llythrennau, geiriau, siapau neu rifau). Ceir cyfoeth o dystiolaeth o astudiaethau tymor hir gyda phlant uniaith sy'n dangos bod ansawdd yr ADC yn cael effaith arwyddocaol iawn ar les, dysg a datblygiad plant ifanc. Mae astudiaethau gyda phlant dwyieithog hefyd yn dangos, fel gyda phlant uniaith, bod darllen, adrodd stori, sgwrsio a gwylio rhaglenni teledu addysgiadol gyda'i gilydd yn cael effaith bositif ar eirfa a dealltwriaeth plant dwyieithog o iaith, o leiaf yn yr iaith a ddefnyddir yn ystod y rhyngweithio hwn (Patterson, 2002).

6.12 At hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyfedredd plant dwyieithog yn y ddwy iaith yn cydberthyn yn glos â lefel y mewnbwn yn yr iaith honno. Po fwyaf o fewnbwn y mae plentyn yn ei dderbyn mewn iaith benodol, gorau oll y mae'n perfformio mewn profion geirfa, darllen ac ysgrifennu yn yr iaith honno (De Houwer, 2007). Canfu astudiaeth o bwysigrwydd cefnogaeth rhieni i drochi'n gynnar mewn iaith, yng nghyd-destun cyfleusterau cyn-ysgol cyfrwng Gwyddeleg (neu *naíonraí*), fod rhieni yn adrodd bod mynychu cyfleusterau trwytho cyn-ysgol wedi cynyddu'r defnydd o'r iaith darged yn y cartref (Hickey, 1999). Yn ei dro, canfuwyd bod y defnydd hwn yn y cartref yn cyfrannu'n sylweddol at sgôr y plant mewn profion yn y Wyddeleg. O gymryd y canlyniadau hyn gyda'i gilydd, maent yn tynnu sylw at rôl cefnogaeth barhaus yn y cartref i'r iaith darged, a phwysigrwydd annog rhieni i ddefnyddio'r Wyddeleg mor aml ag y bo modd er mwyn cefnogi dysg eu plant drwy eu trochi'n gynnar yn yr iaith.

6.13 Oherwydd hyn, awgryma'r dystiolaeth y gallai fod rôl amlycach i Twf a'r Mudiad Meithrin o ran rhoi cefnogaeth fwy ymarferol a dwys i rieni er mwyn iddynt greu ADC ysgogol sy'n hybu ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Byddai rhagor o ymchwil i ADC yng nghyd-destun caffael y Gymraeg yn ddefnyddiol.

7 Thema Tri – Plant a Phobl Ifanc

Ystadegau ategol:

Yn ôl Cyfrifiad 2001:

- Roedd 20.8 y cant o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg. O blith y rhai rhwng pump a naw oed, roedd y ffigur yn 37.4 y cant, ac o blith y rhai rhwng 10 a 15 oed, roedd y ffigur yn 43.6 y cant.

Yn ôl Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2011, yn Ionawr 2011:

- Roedd 7.6 y cant o ddisgyblion ysgol gynradd 5 oed a throsodd, ac 8.8 y cant o ddisgyblion ysgol uwchradd 11-15 oed, yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref (yn ôl asesiad eu rhieni)
- At hynny, roedd 6.2 y cant o ddisgyblion ysgol gynradd 5 oed a throsodd, a 7.2 y cant o ddisgyblion ysgol uwchradd 11-15 oed, nad oedd yn siarad Cymraeg yn y cartref er eu bod yn gallu ei siarad yn rhugl (yn ôl asesiad eu rhieni)
- Roedd 467 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys ysgolion dwy ffrwd a phontio) o blith cyfanswm o 1,435 o ysgolion cynradd, a 56 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys ysgolion dwyieithog math A, B, C ac Ch) o blith cyfanswm o 222 o ysgolion uwchradd.

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

- 7.1 Yn y gorffennol, ystyrid dwyieithrwydd cynnar yn beth peryglus oherwydd y credid y byddai'n arwain at ddryswch ac oedi wrth ddysgu iaith. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi dechrau dangos y gall dwyieithrwydd cynnar arwain at fanteision (gan gynnwys manteision gwybyddol), a bod unrhyw oedi a brofir wrth ddysgu yn cael ei unioni yn nes ymlaen (State University, 2010; Gathercole a Thomas, 2009). Yn ogystal â manteision gwybyddol, cofnodwyd manteision o ran diwylliant, cyfathrebu, addysg a chyflogaeth (Baker, 2011).

- 7.2 Mae'r niwrowyddonydd gwybyddol Ellen Bialystok (2011) wedi galw mantais wybyddol dwyieithrwydd yn '*metalinguistic superiority*'. Mae ei gwaith ym maes dwyieithrwydd hefyd yn tynnu sylw at gleifion Alzheimer dwyieithog sy'n ymdopi'n well â difrod i'r ymennydd na'u cymheiriaid uniaith.
- 7.3 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod llawer o'r llenyddiaeth ynglŷn â manteision dwyieithrwydd cynnar yn cyfeirio at 'ddwyieithrwydd rhugl' – hynny yw, bod lefel benodol o hyfedredd wedi'i chyrraedd yn y ddwy iaith. Hefyd, mae angen mwy o waith er mwyn dehongli sut yn union y cyrhaeddwyd y manteision hyn (Chipongian, 2000).
- 7.4 Wrth ystyried a yw hi'n ddefnyddiol, ymarferol a chost-efeithiol canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, mae'n werth ystyried damcaniaeth cyfnod allweddol caffael iaith. Ymddengys y ceir consensws bod y cyfnod allweddol ar gyfer caffael iaith gyntaf yn dod i ben oddeutu adeg glaslencyndod.
- 7.5 Mae'r darlun yng nghyswllt caffael ail iaith yn llai pendant. Ymddengys y ceir tystiolaeth gadarn bod pobl sy'n dysgu ail iaith yn gynharach yn cyrraedd lefelau uwch o gymhwysedd na'r rhai sy'n dysgu'r iaith yn nes ymlaen. Mae'r rhai sy'n dysgu'n hwyrach yn dueddol o fod yn annhebygol o gyrraedd lefelau mamiaith o hyfedredd, gan brofi anhawster gydag agweddau ar ramadeg ac acen. Fodd bynnag, ceir eithriadau i'r rheol hon, ac felly ni ellir dadlau'n bendant fod cyfnod allweddol i gaffael ail iaith yn yr un modd ag y gellir ei honni am gaffael iaith gyntaf. Fodd bynnag, ymddengys y ceir tystiolaeth gadarn fod canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar yn beth da (Churchill, -) ac y dylai caffael ail iaith ddechrau cyn i blentyn fod yn chwech oed er mwyn cyrraedd hyfedredd mamiaith (Gathercole a Thomas, 2009).
- 7.6 Ar ôl caffael iaith, awgryma'r ymchwil bod yn rhaid i'r unigolyn gael cysylltiad parhaus â'r iaith gydol ei oes er mwyn cynnal yr iaith honno (Gathercole a Thomas, 2009).
- 7.7 Ystyrir bod y blynyddoedd cynnar a blynyddoedd yr arddegau yn gyfnod hollbwysig o ran datblygu agwedd tuag at iaith leiafrifol, ac o ran pennu a yw'r unigolyn yn cynnal yr iaith honno (O'Riagain et al, 2008). Mae ymchwil wedi

edrych ar y defnydd o'r Wyddeleg, y Gymraeg, y Gatalaneg, y Fasgeg a'r Sbaeneg ymhlith pobl ifanc a oedd yn cael eu haddysgu'n ddwyieithog ac, mewn rhai achosion, a oedd yn dod o gartrefi lle'r oedd yr iaith leiafrifol yn cael ei siarad. Roedd y mwyafrif yn dewis sgwrsio gyda'u ffrindiau a'u brodyr a'u chwiorydd yn yr iaith fwyafrifol (Gathercole a Thomas, 2009; O'Riagain et al, 2008).

- 7.8 Wrth edrych ar y Gatalaneg a'r Fasgeg fel enghreifftiau, dangoswyd bod cymhwysedd iaith ymhlith y glasoed wedi gwella, oherwydd eu haddysg, ond nad oedd eu defnydd cymdeithasol o'r iaith wedi cynyddu. Daethpwyd i'r casgliad bod hyn oherwydd y gwnaed ymdrech fawr i ddatblygu caffael ffurfiol yr ieithoedd hyn ar draul agweddau rhyngpersonol yr iaith ac, os yw'r iaith i'w lledaenu'n fwy effeithiol, bod angen i'r Gatalaneg a'r Fasgeg gael eu hymgorffori'n fwy i weithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag addysg (O'Riagain et al, 2008). Mae canlyniadau tebyg wedi'u darganfod yng Nghymru - nid yw dymuniad rhieni di-Gymraeg i'w plant ddysgu Cymraeg drwy'r system addysg yn arwain o reidrwydd at gynnydd yn y defnydd a wneir o'r iaith yn gymdeithasol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005).
- 7.9 Ceir tystiolaeth bod y thema hon yn bwysig. Ymddengys nad yw'r ysgol ar ei phen ei hun yn ddigon. Os yw iaith i ffynnu, rhaid iddi gael ei chefnogi yn y cartref (os oes modd) a thrwy opsiynau cymdeithasol a diwylliannol ehangach. Ceir tystiolaeth bod pobl ifanc yn treulio llawer o'u hamser gyda'u teuluoedd, eu grŵp cymheiriaid a phobl eraill y deuant i gysylltiad â hwy yn yr ysgol. Mae hynny'n awgrymu bod y rhwydweithiau hyn yn dylanwadu ar yr iaith normadol. Mae iaith y cartref yn ffactor graidd o ran penderfynu pa iaith a ddefnyddir. Felly hefyd iaith y grwpiau cymheiriaid ac agweddau'r grwpiau hynny at y Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005).
- 7.10 Ymddengys mai'r peth pwysig i'w wneud, i ddechrau, yw cadarnhau bod y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn gostwng y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol, dod o hyd i'r rhesymau pam mae hyn yn digwydd, a holi pobl ifanc pa fath o weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau sy'n ceisio cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg?

- 7.11 Mae'n amlwg mai'r ddarpariaeth addysg mewn ysgolion a cholegau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, fel ei gilydd, yw'r hyn sy'n debygol o ddylanwadu fwyaf ar gaffael iaith ymhlith plant a phobl ifanc y tu allan i'r cartref. Fodd bynnag, fel y nodwyd, nid oedd yr adolygiad hwn yn cynnwys edrych ar effeithiolrwydd addysg, fel y cyfryw.
- 7.12 Wedi dweud hynny, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw werthusiadau o ganlyniadau ymyriadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac sy'n uniongyrchol berthnasol i'r thema hon. Serch hynny, mewn rhai achosion, mae adolygiadau mwy cyffredinol wedi'u cynnal, er enghraifft yr adolygiad o weithgareddau'r Urdd. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod y gweithgareddau oedd yn cael eu darparu gan yr Urdd yn cael effaith o ran lledaenu a hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg (Lewis a Richards, 2004).
- 7.13 Fodd bynnag, gan gadw mewn cof y diffyg canfyddiadau gwerthuso cadarn, gwnaed yr argymhellion canlynol ynghylch sut i gynyddu ac annog y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth (O'Riagain et al, 2008):
1. Cynnal a chynyddu nifer y teuluoedd sy'n siarad Cymraeg yn y cartref.
 2. Cynnal a chynyddu nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel y prif, neu'r unig, gyfrwng addysgu a gweinyddu.
 3. Cyflwyno elfen o addysg ymwybyddiaeth iaith i gyrsiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).
 4. Datblygu hyfforddiant priodol ar gyfer gweithwyr ieuenctid ac eraill ar agweddau cynhwysol tuag at y Gymraeg.
 5. Trefnu cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
 6. Cyflwyno gweithwyr ieuenctid cyswllt i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ac yn yr ysgol.
 7. Cynyddu nifer y sefydliadau arwyddocaol sy'n atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
 8. Codi statws gweledol a gwerth cymdeithasol y Gymraeg yn y gymuned.

Pa dystiolaeth a geir y gallai mathau eraill o ymyriadau/polisiau lwyddo?

- 7.14 Gall fod yn anodd trosi canfyddiadau o wahanol ddiwylliannau, gwledydd a sefyllfaoedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau cydweithrediad rhwngwladol er mwyn rhannu gwybodaeth, osgoi dyblygu ymdrech a darnio ymdrechion ymchwil (O'Riagain et al, 2008).
- 7.15 I gloi, yn wyneb pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a blynyddoedd yr arddegau o ran datblygu a chynnal gallu mewn iaith leiafrifol ac agwedd tuag ati, mae angen i'r dystiolaeth ymchwil gael ei gwella, yn enwedig o ran casglu barn, safbwyntiau ac ymddygiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fel y dywed Price (2010) ... *"If the dictum 'the young people of Wales have the future of the Welsh language in their hands' is to be widely upheld and endorsed then the attitudes of young people need to be explored"*. Byddai cynnal ymchwil ynghylch agweddau **ac** ymddygiadau yn rhoi tystiolaeth fuddiol yn y maes hwn.

8 Thema Pedwar – Y Dinesydd – Cyflenwi Gwasanaethau

Ystadegau ategol:

- Yn ôl arolwg Llais Defnyddwyr Cymru (2010):
 - Dywedodd 92 y cant o siaradwyr Cymraeg (boed yn rhugl neu beidio) fod darparu gwasanaethau Cymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw;
 - Roedd 80 y cant o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylai siaradwyr Cymraeg gael yr hawl i gael pob gwasanaeth yn Gymraeg;
 - Roedd 57 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn teimlo ei bod yn bwysig yn bersonol iddynt hwy allu cael gwasanaethau Cymraeg yn y sector cyhoeddus;
 - Roedd 50 y cant o siaradwyr Cymraeg yn teimlo ei bod yn bwysig yn bersonol iddynt hwy allu cael gwasanaethau Cymraeg yn y sector preifat.

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

- 8.1 Gosododd Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) ddyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru, ble bynnag y mae'r gyrff hynny yn y DU, i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog lawn gymaint i'w wneud â chydraddoldeb a hawliau ag sydd ganddo i'w wneud â hyrwyddo.
- 8.2 Prin yw'r dystiolaeth benodol bod darparu gwasanaethau mewn iaith leiafrifol yn cynyddu bri na statws yr iaith. Ond ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos mai dim ond os ceir cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd y bydd iaith yn ffynnu. Mae darparu gwasanaethau yn amlwg yn gyfle o'r fath (Grin, 2002).
- 8.3 Mae'r llenyddiaeth hefyd yn gwahaniaethu rhwng gwrthdroi newid ieithyddol ac adfywio iaith. Nid yw darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, o reidrwydd, yn atgyfodi patrymau defnydd o fewn y teulu. Serch hynny mae'n debygol o gyflwyno'r Gymraeg i ddefnyddwyr a meysydd newydd (King, 2001).

- 8.4 Ceir tystiolaeth helaeth bod y boblogaeth yng Nghymru'n cefnogi darparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mewn arolwg o siaradwyr Cymraeg yn 2009/10 (Llais Defnyddwyr Cymru), roedd y mwyafrif (92 y cant) o'r farn bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fyw. At hynny, roedd wyth o bob deg o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylent gael yr hawl i gael gwasanaethau Cymraeg.
- 8.5 Dangosodd arolwg Llais Defnyddwyr Cymru - yn achos gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau preifat - bod canran y siaradwyr Cymraeg a oedd yn teimlo ei bod yn *bwysig* gallu cael gwasanaethau Cymraeg yn uwch na'r ganran a oedd yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae hynny'n awgrymu, naill ai nad yw'r gwasanaethau ar gael neu bod rhwystrau yn ffordd pobl o ran cael gafael ar wasanaethau Cymraeg. Mewn arolygon a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn chwech o drefi yn 2005/06, gwelwyd effaith bositif cynlluniau iaith. Ond gwelwyd hefyd fod nifer o ymrwymadau heb eu cyflawni: o blith y gwasanaethau a ddarperid gan gyrff y llywodraeth câi 73 y cant eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac o blith y rhai a ddarperid gan gyrff llywodraeth leol, câi 69 y cant eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae Misell (2000) yn awgrymu bod y rhwystrau sydd yn ffordd pobl o ran cael gafael ar wasanaethau yn debygol o'u gwneud yn llai parod i ddefnyddio'r Gymraeg hyd yn oed pan fydd gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog ar gael.
- 8.6 O edrych ar wasanaethau penodol, roedd dinasyddion yn fwy tebygol o fod eisiau cael gwasanaethau cludiant (trenau, bysiau, cludo clefion) a gwasanaethau llyfrgell yn *ddwyieithog*. Ar y llaw arall, roedd mwy o gefnogaeth (gan rieni) i gael cyfathrebu â staff ysgolion cynradd ac uwchradd a gwasanaethau meddygon teulu yn y *Gymraeg*. Cefnogir hyn gan ymchwiliad i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn fferyllfeydd, sy'n dangos y byddai'n well gan siaradwyr Cymraeg drafod eu hanghenion yn yr iaith honno, gan y byddai'n haws ganddynt esbonio symptomau ac y byddent yn gofyn mwy o gwestiynau am eu meddyginiaeth (Hughes et al, 2009). Mae ymchwiliad i'r trydydd sector a'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl yn cyflwyno canfyddiadau cyffelyb. Un o'r prif resymau dros geisio cael gwasanaethau

Cymraeg oedd bod dinasyddion yn teimlo eu bod yn gallu esbonio eu hunain yn well (Prys, 2010; Madoc-Jones, 2004). Roedd y gwasanaethau hynny oedd â mwy o alw am rai Saesneg yn dueddol o fod yn ymwneud ag argyfwng (ambiwlans, adrannau damweiniau ac achosion brys, a'r ysbyty), ond roeddent hefyd yn cynnwys gwasanaethau deintyddol a chyngor am dai.

- 8.7 Ceir rhywfaint o dystiolaeth ansoddol mai dim ond yn eu hiaith gyntaf y gall defnyddwyr gwasanaeth gael triniaeth effeithiol (Hughes et al, 2009). Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gwasanaethau meddygol, megis y rhai sy'n cael therapi iaith a lleferydd, a'r grwpiau allweddol canlynol:
- pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl
 - pobl sydd ag anawsterau dysgu ac anghenion arbennig eraill
 - pobl hŷn
 - plant ifanc.
- 8.8 Dengys ymchwil bod rhai cleifion yn annhebygol o ofyn am wasanaethau Cymraeg neu fynnu eu cael, a allai olygu bod cleifion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn derbyn gwasanaeth o safon annerbyniol (Roberts et al, 2004).
- 8.9 Er bod llawer o'r dystiolaeth yn ymwneud â'r sector iechyd, ceir tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig yng nghyswllt y llysoedd a'r heddlu (Hughes a Madoc-Jones, 2005). Dengys ymchwil bod carcharorion Cymraeg yn gallu teimlo fel petaent wedi'u hynysu, ac y gall hyn fod â goblygiadau i'r broses o'u hadsefydlu.
- 8.10 Yng nghyswllt y sector preifat yn benodol, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y boddhad â'r gwasanaeth yn uwch pan fydd siaradwyr Cymraeg yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith. Hefyd (yng nghyswllt y sector preifat) byddant yn fwy tebygol o brynu eto, neu argymhell i ffrind (Cwmni Iaith, 2008; Llais Defnyddwyr Cymru, 2010; Beaufort Research, 2005).
- 8.11 Mae'r ymchwil yn dangos bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn bwysig o ran annog y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau?

8.12 Dengys tystiolaeth bod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi cael effaith bositif ar ddefnyddio'r Gymraeg (Pertot et al, 2008). Ceir tystiolaeth hefyd sy'n ymwneud â gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg yng Nghymru, yn ogystal ag yng ngweddill y DU, er bod amrywiaeth yn y graddau y mae'r cynlluniau wedi'u gweithredu. Er bod rhai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus wedi mabwysiadu polisiau cadarn a oedd yn cyflawni ac, mewn rhai achosion, yn rhagori ar ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, dengys ymchwil bod cyrff eraill yn dangos llai o gefnogaeth i'w Cynlluniau Iaith Gymraeg. Rhai o'r ffactorau oedd yn berthnasol i lwyddiant Cynlluniau Iaith Gymraeg oedd nodweddion demo-ieithyddol yr ardal, arweiniad gwleidyddol craff ac, yn fwyaf allweddol efallai, ymrwymiad uwch reolwyr i weithredu'r Cynllun Iaith (Williams, 2010).

8.13 Mae tystiolaeth hefyd yn dangos, fodd bynnag, nad yw Deddf yr Iaith Gymraeg, ar ei phen ei hun, yn ddigon. Mae rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg yn parhau. Mae Llais Defnyddwyr Cymru'n crynhoi'r prif rwystrau fel a ganlyn:

1. Darpariaeth – diffyg cyflenwad gwasanaethau yn y Gymraeg
2. Canfyddiadau – diffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg
3. Hyrwyddo – diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â chyflenwad gwasanaethau yn y Gymraeg

8.14 Roedd y rhwystrau hyn i'w gweld mewn gwasanaethau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Yn achos gwasanaethau ieuchyd yn benodol, yn 2008 roedd 23 y cant o siaradwyr Cymraeg yn anfodlon â lefel y gwasanaethau oedd ar gael yn y Gymraeg, tra roedd 19 y cant yn anfodlon â nifer y staff oedd yn siarad Cymraeg. At hynny, roedd 25 y cant o siaradwyr Cymraeg yn anghytuno bod anghenion cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn cael eu bodloni'n ddigonol gan y GIG (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2008). Awgryma hyn fod bwlch rhwng y gwasanaethau a ddarperir ac anghenion cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

- 8.15 Mae Estyn Llaw yn brosiect sy'n ceisio cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu dwyieithrwydd a hyrwyddo gwirfoddoli ymhlith siaradwyr Cymraeg. Mewn gwerthusiad o Estyn Llaw daethpwyd i'r casgliad iddo arwain at newid arferion, cynyddu ymwybyddiaeth o faterion dwyieithrwydd a sensitifrwydd tuag atynt, a mwy o allu a pharodrwydd i ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith. At hynny, roedd tystiolaeth i awgrymu bod y mudiadau yr oedd Estyn Llaw yn ymwneud â hwy yn fwy tebygol o fod â chynllun iaith Gymraeg na'r rhai nad oedd yn ymwneud â'r prosiect a bod hyn, mewn rhai achosion, yn ganlyniad i weithio gydag Estyn Llaw i ddatblygu cynllun. Fodd bynnag daeth y gwerthusiad i'r casgliad nad oedd y cynnydd, o ran datblygu gwasanaeth rheng flaen dwyieithog, ynddo'i hun, yn helaeth. Adroddwyd bod hyn yn sgil materion a oedd y tu hwnt i reolaeth Estyn Llaw, sef cyfyngiadau ar y gallu cyfredol ac anawsterau recriwtio gwirfoddolwyr a staff Cymraeg eu hiaith.
- 8.16 Mewn cyfweiliadau gydag uwch-reolwyr ar draws awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru, pwysleisiwyd bod hyder yn ffactor bwysig a oedd yn rhwystro staff sector cyhoeddus rhag defnyddio'r Gymraeg (WISERD, 2011). Tynnodd yr ymchwili hon sylw at yr amrywiad sylweddol yn y siaradwyr Cymraeg oedd ar gael i lenwi swyddi yn y sector cyhoeddus.
- 8.17 Yn yr un modd, pwysleisiwyd bod hyder yn broblem i ddinasyddion, gydag ymchwili yn awgrymu bod defnyddwyr gwasanaethau yn aml yn cofnodi nad oeddent yn dewis gwasanaethau Cymraeg oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd eu Cymraeg yn ddigon da. Dyma'r prif rwystr a nodwyd gan y rhai a oedd yn siarad Cymraeg, ond nid yn rhugl, rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio 'wyneb yn wyneb' â staff (Beaufort Research, 2005).
- 8.18 Mae'r rhwystr hyrwyddo yn cael ei gefnogi gan ganfyddiadau'r BBC. Yn 2008 aethant ati i gysylltu â nifer o sefydliadau, ac fe nododd y rhan fwyaf ohonynt mai tua 1 y cant o'u cwsmeriaid oedd yn defnyddio'u cyfleusterau Cymraeg. Er nad yw'r ffigurau hyn yn rhai cadarn, maent yn rhoi awgrym o'r sefyllfa. Ond pan holwyd Dŵr Cymru yn 2008, dywedodd bod y galwadau i'w ganolfan Gymraeg wedi cynyddu 50 y cant i 9 y cant o'r galwadau, yn dilyn ymgyrch hysbysebu. Mae hyn yn brawf o bwysigrwydd hyrwyddo gwasanaethau

Cymraeg. Pan ofynnwyd i Dŵr Cymru eto yn 2011, dywedodd mai tua 3 y cant o alwadau oedd yn cael eu gwneud i'w linell Gymraeg ar gyfer gwasanaethau cwsmeriaid. Ond dywedodd Nwy Prydain eu bod wedi hysbysebu gwasanaethau Cymraeg yn y gorffennol, ond bod llai na 0.5 y cant o'r cyswllt gan eu cwsmeriaid yn digwydd yn Gymraeg. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod potensial i wneud gwaith hyrwyddo i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, ond bod angen rhagor o ymchwil i ddarganfod sut y gellir sicrhau llwyddiant trwy hynny.

- 8.19 Ceir rhagor o gefnogaeth i'r elfen hyrwyddo gan ymchwil Llais Defnyddwyr (2010). Nodwyd mai hyrwyddo oedd y rheswm ail uchaf dros beidio defnyddio gwasanaethau Cymraeg; dywedodd 30 y cant o'r rhai a oedd prin neu byth yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg mai'r rheswm am hynny oedd nad oeddent wedi meddwl am wneud hynny.
- 8.20 Ymgyrch a noddur gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yw 'Mae Gen Ti Ddewis', i hyrwyddo dewis Cymraeg fel iaith cyfathrebu. Dangosodd arolwg o 50 o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2009 (Trywydd) mai'r ymgyrch honno oedd eu prif gyfrwng i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, ond nad oedd y cyrrff hynny yn defnyddio'r ymgyrch yn helaeth. O'r rhai a ddefnyddiodd yr ymgyrch ac a gasglodd wybodaeth ynglŷn â'i defnydd, gwelodd y rhan fwyaf ohonynt gynydd yn eu defnyddwyr Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, adroddodd un bod y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar ôl yr ymgyrch yn fyrhoedlog. Mae hyn yn awgrymu bod angen ateb tymor hwy. Gan mai prin iawn oedd y cyrrff a gasglodd wybodaeth ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg, un o argymhellion yr adroddiad oedd bod mecanweithiau effeithiol ar gyfer mesur effaith yr ymgyrch yn cael eu cynnwys yn y meini prawf ar gyfer cymryd rhan ynddi.
- 8.21 Awgryma'r dystiolaeth bod ymyriadau sy'n ceisio cynyddu cyflenwad gwasanaethau Cymraeg wedi profi peth llwyddiant, ond mai llwyddiant cyfyngedig yw hwnnw oherwydd y ffactorau uchod, megis hyder siaradwyr Cymraeg yn eu gallu yn yr iaith, ac ymwybyddiaeth bod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg.

8.22 Fel y nodir mewn adroddiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (2007):

"..tra bod cynlluniau sector gyhoeddus wedi eu gweithredu, [nid] yw'r gwasanaeth cyflawn ar gael yn Gymraeg. Ymhellach, dim ond rhannol lwyddiannus fu'r ymgais i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y sector breifat."

Pa dystiolaeth a geir y gallai mathau eraill o ymyriadau/polisïau lwyddo i gynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg?

8.23 O ran darparu gwasanaethau mae'r ymchwili yn awgrymu bod gan staff, ym maes gofal iechyd yn benodol, agweddau gweddol bositif tuag at y Gymraeg ac y gallai hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a chysiau gloywi iaith fod yn fuddiol o ran cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg (Roberts et al, 2007). Mae Misell (2000) yn awgrymu bod dwy ffordd y gall staff di-Gymraeg hyrwyddo buddiannau cleifion Cymraeg eu hiaith. Yn gyntaf, drwy sensitifrwydd ieithyddol (cydnabod pwysigrwydd yr iaith gyntaf, ac ymddiheuro nad ydynt yn ei siarad), a defnydd cyfyngedig o'r Gymraeg i greu neu feithrin y cysylltiad rhwng cleifion a staff (digon o Gymraeg i wneud y tro). Er bod yr enghreifftiau hyn yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau iechyd, gellid cymhwyso'r gwersi i wasanaethau eraill. Mae hyn yn awgrymu bod hyfforddi staff i siarad Cymraeg, neu eu hyfforddi i ddeall beth y mae cwsmeriaid Cymraeg ei ddisgwyl, yn bwysig. Er nad yw'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddo bob tro, fel y dengys Misell, gall dweud rhai brawddegau allweddol fod yn helpu wrth ddarparu gwasanaethau.

8.24 Erbyn hyn mae nifer o gyrsgau addysg uwch yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys lleoliadau mewn canolfannau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn helaeth. Caiff y rhain eu cynllunio, eu cefnogi a'u datblygu'n ganolog drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Er bod greddf yn dweud bod hyn yn syniad da, oherwydd ei fod yn caniatáu i fyfyrwyr ddod i arfer â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o lwyddiant neu fethiant cyfleoedd o'r fath.

8.25 Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod hyrwyddo'r ffaith bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn debygol o gynyddu'r defnydd a wneir ohonynt. Nodir mai'r prif rwystr rhag defnyddio'r Gymraeg yw cyndynrwydd siaradwyr Cymraeg rhugl i

ddewis gwasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb, oni bai eu bod yn gwybod bod y staff yn gallu siarad yr iaith (Llais Defnyddwyr Cymru, 2010). Er mai enghraifft gyfyngedig ydyw, mae ymgyrch hyrwyddo Dŵr Cymru i gynyddu'r defnydd a wnaed o'u gwasanaethau Cymraeg yn brawf bod manteision i godi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau dwyieithog. At hynny, dengys tystiolaeth y dylid cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, rhag peri iddynt beidio â defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg oherwydd bod rhaid iddynt ofyn amdano (Prys, 2010).

9 Thema Pump – Cymraeg yn y Gweithle

Ystadegau ategol:

Yn ôl Arolygon Byw yng Nghymru 2004-06, o'r ymatebwyr hynny a oedd yn gallu siarad Cymraeg ac a oedd mewn swydd gyflogedig:

- Dywedodd 52 y cant bod eu cyflogwyr yn cefnogi'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o'r agweddau ffurfiol ac anffurfiol ar y busnes.
- Dywedodd 21 y cant bod eu cyflogwyr yn gefnogol yn anffurfiol, ond nid gyda materion ffurfiol.
- Dywedodd 9 y cant nad oedd eu cyflogwyr yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg.
- Dywedodd 36 y cant y gallai'r rhan fwyaf o'u goruchwylwyr siarad Cymraeg, tra dywedodd 31 y cant bod y rhan fwyaf o'u cydweithwyr yn gallu siarad Cymraeg.
- Dywedodd 22 y cant bod y rhan fwyaf o'u cleientiaid yn gallu siarad Cymraeg.
- Roedd 52 y cant yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf wrth siarad â rheolwyr Cymraeg eu hiaith, tra'r oedd 50 y cant yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf wrth siarad â chydweithwyr neu'r rhai yr oeddent yn eu goruchwyllo a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 49 y cant a oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf â chleientiaid Cymraeg eu hiaith.
- O ran hyfforddiant, roedd 17 y cant wedi cael cynnig hyfforddiant ar gyfer Cymraeg llafar, 13 y cant ar gyfer Cymraeg ysgrifenedig a 9 y cant ar gyfer sgiliau arbenigol. Roedd cyfanswm o 80 y cant heb gael cynnig hyfforddiant yn unrhyw un o'r meysydd hyn.

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

9.1 Mae Grin (2002) yn cynnig model o ymddygiad iaith lle ceir tri amod ar gyfer sicrhau bywiogrwydd iaith, sef: y *gallu* i ddefnyddio iaith; y *cyfleoedd* i'w defnyddio; a'r *awydd* i wneud hynny. Felly, mae darparu sefyllfaoedd lle gellir defnyddio'r Gymraeg (megis yn y gweithle) yn rhan allweddol o'r ymdrech i hyrwyddo ac annog yr iaith yn gyffredinol (Llais Defnyddwyr Cymru, 2010).

- 9.2 Ceir diffyg data perthnasol a rheolaidd ynghylch y thema hon. Mae hi'n amhosib felly rhoi barn ar y tueddiadau cyffredinol, h.y. er mwyn gweld a yw'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar gynnydd neu ar drai. Nododd arolygon defnydd iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008) mai rhuglder siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â gallu goruchwylwyr a chydweithwyr eraill i siarad yr iaith, yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar ddefnydd siaradwyr Cymraeg o'r iaith yn y gweithle.
- 9.3 Mae'n anodd, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, pwysu a mesur pwysigrwydd y thema hon mewn perthynas â themâu eraill y strategaeth. Ymddengys ei bod yn rhesymol tybio y gallai mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle olygu bod yr iaith yn cael ei defnyddio'n amlach ac, o bosib, y gallai arwain at gynyddu hyder pobl yn eu gallu ieithyddol. Serch hynny, oherwydd cymhlethdod polisïau ieithoedd lleiafrifol yn gyffredinol, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau cadarn ynghylch y maes hwn ar sail yr hyn sy'n hysbys i ni. Byddai hyn yn awgrymu bod angen datblygu rhagor ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y thema hon.

Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y Gweithle?

- 9.4 Prin yw'r gwerthusiadau sy'n asesu effaith feintiol ymyriadau polisi i ddatblygu neu i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, yn enwedig o ran pennu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle cyn ac ar ôl yr ymyriad polisi. Felly nid yw'n bosib pwysu a mesur pa mor gost-effeithiol yw ymyriadau o'r fath, a fyddai o leiaf yn cynnig o leiaf un dangosydd posib o lwyddiant neu effaith. Fodd bynnag, ceir corff cynyddol o dystiolaeth ansoddol am gynlluniau sydd, fe ymddengys, yn gweithio'n dda o ran cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gweithle (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2007-10). Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyhoeddi rhagor o ymchwil yn y maes hwn, felly mae'r sylfaen dystiolaeth yn datblygu.
- 9.5 Yn ôl ymchwil ansoddol ddiweddar (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 201) gyda dau ar bymtheg o gyrff yng Nghymru, mae nifer o ffactorau gwahanol yn dylanwadu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn fewnol yn y gweithle. Mae'r gwerth y

mae'r corff yn ei roddi ar y Gymraeg, yn ogystal â'r graddau y mae'r staff yn derbyn y gwerthoedd hynny, i gyd yn chwarae eu rhan. Roedd pob un o'r ddau gorff ar bymtheg yn nodi 'bwlch sgiliau'³ ac yn gyffredinol roeddent yn gytûn mai diffyg hyder oedd un o'r prif rwystrau oedd yn atal staff rhag defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith yr ymddengys bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi bod yn gyfrwng llwyddiannus i feithrin agwedd bositif tuag at y Gymraeg ymhlith staff. Awgrymir y gall hyn, yn ei dro, arwain at fwy o ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r strategaeth *Iaith Fyw: Iaith Byw* yn nodi y gallai 'Cymraeg i Oedolion' fod yn arbennig o bwysig yng nghyswllt y thema hon. Er y gallai hyn fod yn wir er mwyn cynyddu hyder a sgiliau siaradwyr Cymraeg yn y gweithle, ymddengys bod angen rhagor o ymchwil.

- 9.6 Mae ymchwil yn dangos bod cryn amrywiaeth o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan wahanol sefydliadau. Ymysg y prif ffactorau y cofnodir eu bod yn arwain at fwy o ddefnydd o'r iaith yn y gweithle y mae arweinwyr brwdfrydig a rhagweithiol (er nad oes ganddynt sgiliau yn y Gymraeg o reidrwydd), hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, cynyddu hyder a pharodrwydd staff i gyfathrebu yn y Gymraeg, hyfforddiant galwedigaethol a chymorth gan swyddogion/eiriolwyr/mentoriaid iaith. Ceir tystiolaeth lafar hefyd fod defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn arwain at fwy o ddefnydd ohoni y tu allan i'r gwaith, yn enwedig yng nghyd-destun plant a gwaith cartref.

Pa dystiolaeth a geir y gallai mathau eraill o ymyriadau/polisiâu lwyddo?

- 9.7 Ceir peth tystiolaeth sy'n berthnasol i Gymru o brofiad Canada; yn benodol o ran defnyddio'r Saesneg a'r Ffrangeg fel ei gilydd yn ieithoedd gwaith yn y sector cyhoeddus. Mae angen nodi ambell gafeat pwysig cyn gwneud unrhyw gymhariaeth â Chanada ac â gwledydd eraill sydd â pholisïau dwyieithog – er enghraifft gwahaniaethau o ran statws cyfreithiol yr ieithoedd a siaredir a gwahanol amcanion polisi cenedlaethol. Er hynny, mae gwerthusiadau o brofiad Canada wedi dangos, yn gyffredinol, bod un iaith yn dueddol o fod yn drech na'r llall mewn unrhyw weithle dwyieithog (Swyddfa'r Comisiynydd

³ Diffinnir hwy fel y gwahaniaeth rhwng y sgiliau sydd eu hangen er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gweinyddu mewnol, a sgiliau cyfredol y staff.

leithoedd Swyddogol, 2006). Wrth drafod y cyffredinolriad hwn mae angen cyfeirio at dystiolaeth ychwanegol sy'n awgrymu nad oes angen i'r naill iaith swyddogol fod yn drech na'r llall mewn cyrff neu adrannau sy'n gwbl abl i weithredu'n ddwyieithog, neu sydd â gweithwyr dwyieithog cymwys. Mae Cardinal et al wedi dangos yn achos sawl maes cyhoeddus, megis iechyd a'r gyfraith yn Ontario, ei bod yn bosib gweithredu system ddwyieithog gwbl ymarferol cyhyd ag y cynhelir y seilwaith angenrheidiol (Cardinal et al, 2005).

- 9.8 Ceir tystiolaeth hefyd o brofiadau'r Fasgeg a'r Gatalaneg (Eaves et al, 2007). Ond, fel yn achos y Gymraeg, prin yw'r ymchwiliad i batrymau defnyddio iaith yn y gwaith cyn ac ar ôl ymyriad polisi. Felly ni fu modd cynnal asesiad o 'lwyddiant' yr ymyriadau hyn at ddibenion yr adolygiad hwn.

10 Thema Chwech – Cryfhau'r Seilwaith

Ystadegau ategol:

- Roedd yr Arolwg Omnibws (2011) a gomisiynwyd gan S4C yn nodi pa mor bwysig yr oedd ymatebwyr yn ystyried gwahanol elfennau o'r seilwaith Gymraeg o ran cefnogi'r iaith ac annog pobl i'w defnyddio. Cafodd yr isod sgôr allan o 10:
- Addysg Gymraeg **9.1**
- Achlysuron diwylliannol Cymraeg fel yr Eisteddfod **8.9**
- Ffrindiau a theulu **8.7**
- Teledu Cymraeg **8.4**
- Llyfrau Cymraeg **8.3**
- Digwyddiadau Cymraeg lleol **8.2**
- Radio Cymraeg **8.1**
- Gwefannau Cymraeg **7.5**
- Papurau newydd a chylchgronau **7.4**
- Rhwydweithio cymdeithasol yn Gymraeg, h.y. Facebook/Twitter **6.9**

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

10.1 Roedd y ddogfen ymgynghori ar Strategaeth y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2010) yn tynnu sylw at yr angen am seilwaith cadarn er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio Cymraeg yn eu bywyd bob dydd. At ddibenion y ddogfen, mae seilwaith yn cynnwys *'terminoleg, cyfieithu a dehongli, technoleg iaith a data ac ymchwil'* a dylai gyflawni'r pwrpas o *'adlewyrchu ei statws fel iaith swyddogol yng Nghymru, tra'n helpu'r rheiny sydd am ddefnyddio'r iaith i wneud hynny*. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ymhelaethu er mwyn disgrifio'r elfennau hynny y mae eu hangen i adeiladu a chefnogi seilwaith o'r fath:

'Mae gan yr holl wahanol ffurfiau ar y cyfryngau ran bwysig i'w chwarae yn cefnogi seilwaith yr iaith. Mae'r gallu i fanteisio ar lyfrau, radio a theledu Cymraeg o safon uchel yn ogystal â deunydd ar-lein yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu.'

- 10.2 Er bod y cyfryngau a deunyddiau Cymraeg yn cael eu hystyried yn allweddol er mwyn cryfhau seilwaith y Gymraeg ac annog defnyddio'r Gymraeg, mae ymchwil wedi tynnu sylw at nifer o heriau yn y meysydd hynny.
- 10.3 Mewn un astudiaeth benodol a oedd yn archwilio i ba raddau yr oedd siaradwyr Cymraeg yn byw eu bywydau drwy gyfrwng yr iaith, canfuwyd bod ymwybyddiaeth, hygyrchedd a pherthnasedd yn rhwystrau allweddol rhag defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd (S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, 2006). Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith siaradwyr Cymraeg o'r opsiynau Cymraeg oedd ar gael ac, mewn rhai meysydd yn y cyfryngau, nad oedd unrhyw ddarpariaeth gyfatebol Gymraeg, yn enwedig ym maes diwylliant poblogaidd prif ffrwd.
- 10.4 At hynny, canfu'r astudiaeth hefyd bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn ei chael yn anodd gwybod ble i fynd i gael llyfrau, cylchgronau a cherddoriaeth Gymraeg, ac roeddent yn feirniadol o orfod mynd ati'n neilltuol i ddod o hyd i siopau arbenigol. Awgrymwyd hefyd mai prin oedd y dewis o ran teledu, radio, llyfrau a chylchgronau Cymraeg. Roedd bylchau tybiedig yng nghynnwys a rhaglenni'r cyfryngau Cymraeg, yn enwedig ar gyfer rhai grwpiau oed penodol. Er enghraifft, roedd nifer o'r rhai o dan 40 yn teimlo nad oedd llawer o gynnyrch S4C yn berthnasol nac yn ddiddorol i'w grŵp oedran nhw a bod y sianel, yn hytrach, yn talu mwy o sylw i anghenion gwylwyr iau a'r rhai dros 50 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006c). Cafodd Radio Cymru ei beirniadu hefyd am fod yn 'ddiflas' ac 'ar gyfer pobl hŷn'.

Pa dystiolaeth a geir o lwyddiant, neu fethiant, ymyriadau yng nghyswllt seilwaith?

- 10.5 Ceir enghreifftiau o fentrau cyfredol sy'n cefnogi seilwaith y Gymraeg drwy ei gwneud yn haws cael gafael ar adnoddau a chefnogaeth Gymraeg.
- 10.6 Mewn adolygiad o fentrau iaith (Jones ac Ioan, 2000) gwnaed y sylw bod rhai o'r Mentrau yn datblygu canolfannau gwybodaeth ac adnoddau Cymraeg er

mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r iaith a hyrwyddo ei defnydd yn y gymuned.

- 10.7 Mae dau adolygiad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o'r 'Llinell Gyswllt' a gefnogir gan y Llywodraeth, sef y gwasanaeth ymholiadau i'r cyhoedd ynghylch Cymru a'r Gymraeg, yn dangos galw cynyddol am y gwasanaeth, yn enwedig o ran cymorth â chyfieithu.
- 10.8 Cynhaliwyd prosiect yng Ngwynedd i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd cymunedol er mwyn dylanwadu ar agweddau tuag at y Gymraeg a newid arferion ieithyddol drwy gryfhau'r Gymraeg fel iaith yn y gymuned, rhoi mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg a chynnig cyfle cyfartal yn y gymuned i bawb gael siarad yn eu dewis iaith. Roedd gwerthusiad o'r prosiect yn awgrymu i'r gwasanaeth gael effaith bositif ar y Gymraeg gan ei fod yn dangos dwyieithrwydd ar waith, a'i fod yn cyfrannu at sicrhau bod yr iaith yn cael ei gweld a'i chlywed yn fwy amlwg (Kaufmann, 2009).
- 10.9 Ceir tystiolaeth hefyd fod gweithgareddau diwylliannol megis yr Eisteddfod yn dylanwadu ar hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg. Mewn arolwg o ymwelwyr a oedd wedi gwneud cais am docynnau am ddim i'r ŵyl ym Mlaenau Gwent, adroddwyd bod 54 y cant o'r rhai a oedd wedi llenwi'r holiadur Saesneg yn credu bod yr Eisteddfod wedi cael dylanwad positif ar eu barn am y Gymraeg. Adroddodd dros chwarter (29 y cant) o'r ymatebwyr eu bod am ddechrau dysgu Cymraeg ar ôl ymweld â'r Maes ac, o'r rhai a oedd eisoes yn dysgu Cymraeg, roedd chwarter ohonynt (25 y cant) yn teimlo bod yr Eisteddfod wedi'u hysbrydoli i barhau â'u hastudiaethau. Adroddodd Cyngor Blaenau Gwent hefyd iddynt gael 'mwy o gofrestriadau nag erioed o'r blaen' ar gyfer eu gwersi Cymraeg yn y Gweithle (Yr Eisteddfod Genedlaethol, 2010). Cafodd yr arolwg ei gynnal eto yn dilyn Eisteddfod Wrecsam, gyda'r ymwelwyr a oedd wedi archebu eu tocynnau ar y we. Adroddodd ychydig o dan 60 y cant o'r rhai a ymatebodd yn Saesneg fod yr Eisteddfod wedi cael dylanwad positif ar eu barn am y Gymraeg. Roedd mwy na 16 y cant ohonynt naill ai'n bwriadu neu'n gobeithio dysgu Cymraeg yn sgil eu hymweliad.

10.10 Mewn adolygiad o'r cyfryngau print Cymraeg ym maes newyddion a materion cyfoes (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2008), daethpwyd i'r casgliad fod proffil y teitlau cyfredol yn awgrymu bod y sector yn fregus, yn anwastad ac yn anghyflawn, er bod cyhoeddiadau unigol yn perfformio'n dda. Nododd yr adolygiad hefyd:

"Prin hefyd, y tu allan i brosiect Y Byd, yw deunydd ymchwil sy'n trafod y wasg Gymraeg, swyddogaeth ac effaith y cymhorthdal a roddir iddi o dan y gyfundrefn ariannu bresennol, a'i harwyddocâd ar gyfer y Gymru gyfoes."

10.11 Ymddengys bod diffyg tystiolaeth o'r berthynas rhwng y cynlluniau hyn a'u heffaith ar hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Pa dystiolaeth a geir y gallai mathau eraill o ymyriadau/polisïau lwyddo?

10.12 Ymddengys bod llawer o'r drafodaeth am gryfhau'r seilwaith i ddefnyddio ieithoedd lleiafrifol megis y Gymraeg, a goresgyn y rhwystrau rhag eu defnyddio, yn canolbwyntio ar ffyrdd o farchnata a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn yr iaith leiafrifol. Yn aml ceir pwyslais arbennig ar rôl y rhyngrwyd a'r cyfryngau newydd.

10.13 Mae'r ymchwil yn awgrymu bod angen ffyrdd eraill o farchnata er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael. Yn benodol, mae trafodaethau am ddefnyddio'r Gymraeg wedi tanlinellu pwysigrwydd canolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg iau fel cyfrwng o annog a chynyddu'r defnydd o'r iaith. Canfu astudiaeth o'r defnydd a wnaed o'r Gymraeg yn 2004–2006 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2008, y cyfeirir ati yn Honeycutt a Cunliffe, 2010)) fod canran sylweddol uwch o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 5-14 oed nag yn y grŵp oedran 15-24. Canfu ymchwil i waith marchnata'r Gymraeg bod y rhai dan 35 oed yn fwy tebygol o ymateb i gyfryngau marchnata, ac felly mai atynt hwy y dylid anelu strategaethau marchnata a chynlluniau gweithredu yng nghyswllt yr iaith (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003).

- 10.14 Roedd yr astudiaeth hefyd yn nodi '*bod defnydd y cynulleidfaoedd Cymraeg ifainc o'r cyfryngau yn ffactor hollbwysig os yw marchnata'n mynd i ddylanwadu ar eu hymddygiad a'u defnydd o iaith*'. Canfu bod y rhai yn y grŵp oedran 18-35 yn llai tebygol o ddarllen papurau newydd dyddiol a gwyllo S4C, ac yn fwy tebygol o wyllo sianeli digidol megis E4, Sky Sports ac MTV a gwrando ar radio BBC a radio masnachol lleol Saesneg. Felly, awgrymwyd y dylid cynnal ymgyrchoedd a gwaith marchnata ar draws pob math o gyfryngau, gan ddefnyddio cyfryngau Saesneg a'r sianeli prif ffrwd, er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006c).
- 10.15 Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i sicrhau bod cyfryngau ac adnoddau Cymraeg yn fwy hygyrch a pherthnasol. Yn ôl canfyddiadau diweddar yr Arolwg Omnibws diweddaraf (Beaufort Research, 2011), mae 86 y cant o siaradwyr Cymraeg yn credu bod S4C yn cefnogi'r Gymraeg drwy ei rhaglenni a'i chynnwys. Adroddodd yr arolwg hefyd fod 69 y cant yn teimlo bod S4C wedi gwneud y Gymraeg yn fwy modern a pherthnasol iddynt hwy, a dywedodd dros hanner yr ymatebwyr fod S4C wedi gwella eu gafael ar y Gymraeg (52 y cant) ac wedi eu hysbrydoli i ddysgu'r iaith (51 y cant). Roedd amrywiadau yn ôl ardal a rhuglder. Fodd bynnag, roedd astudiaeth flaenorol yn awgrymu bod angen ehangu portffolio'r cynnyrch a'r rhaglenni, gan eu targedu'n benodol at yr ystod oedran 22-45 ac at chwaeth fwy poblogaidd (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006c).
- 10.16 Awgrymwyd hefyd y byddai mynd ati'n fwy rhagweithiol i farchnata sianeli gwahanol ar gyfer prynu llyfrau ac adnoddau Cymraeg yn ffordd o hwyluso defnyddio'r iaith. Enghreifftiau o hyn fyddai sicrhau bod llyfrau ac adnoddau ar gael i'w prynu ar-lein, yn ogystal â dosbarthu llyfrau a cherddoriaeth Gymraeg drwy siopau poblogaidd, megis Waterstones, y siop lyfrau ar y stryd fawr. Dylid nodi, fodd bynnag, bod yr awgrymiadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2003, a'i bod yn bosib nad ydynt mor berthnasol bellach (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006c).
- 10.17 Un thema sy'n dod i'r amlwg yn y corff cyfredol o ymchwil yw pa mor ganolog yw'r rhyngrwyd a'r cyfryngau newydd o ran hwyluso defnyddio

ieithoedd lleiafrifol. Hefyd cydnabuwyd bod ymgorffori technoleg electronig yn hanfodol er mwyn adfywio iaith. Yn ôl Crystal (2000, fel y'i dyfynnwyd yn Nichols, 2007):

“An endangered language will progress if its speakers can make use of electronic technology”.

10.18 Ystyrir bod y rhyngrwyd a ffurfiau eraill ar y cyfryngau newydd yn ei gwneud yn haws cael gafael ar ystod eang o wybodaeth mewn ieithoedd lleiafrifol, ac am yr ieithoedd hynny. Er enghraifft cynhaliwyd arolwg effaith yn Seland Newydd yn 2010 (Te Puni Kokiri), i archwilio cyfraniad amryw o wasanaethau Maori a noddwyd neu a ddarparwyd gan y llywodraeth. Casgliad yr arolwg hwnnw oedd bod cydberthynas rhwng ymweld â gwefannau oedd yn cynnwys yr iaith Faori a chynnydd yn y defnydd o'r iaith honno. Canfu'r arolwg bod cyfraddau cyson uwch o ddefnyddio gwefannau Maori ymhlith y rhai oedd yn defnyddio mwy o'r iaith Faori nag yr oeddent 12 mis ynghynt. Fodd bynnag, mae effaith uniongyrchol gwefannau ar gynyddu'r defnydd o iaith yn parhau'n aneglur.

10.19 Mae astudiaethau wedi dangos bod y rhyngrwyd a'r cyfryngau newydd yn arbennig o berthnasol a phwysig i'r grŵp targed iau, gan fod y math hwn o gyfrwng yn hynod o boblogaidd ganddynt. Awgrymwyd bod gan dechnoleg ran sylweddol i'w chwarae o ran hyrwyddo perthnasedd ieithoedd lleiafrifol i bobl ifanc, gan eu bod yn cymryd at offer technolegol newydd yn sydyn iawn. (Fleming Debski, 2007).

10.20 Yn ôl astudiaeth a oedd yn edrych ar waith marchnata'r Gymraeg, roedd pobl ifanc yn treulio mwy o amser ar y rhyngrwyd nag yn gwylio teledu (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003). Canfu'r astudiaeth bod gan oedolion ifanc (18- 35 oed) dueddiad cryf i ddefnyddio'r rhyngrwyd fel eu prif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth a newyddion, yn hytrach na ffynonellau print.

10.21 Dengys ymchwil hefyd bod oedolion ifanc yn defnyddio'r rhyngrwyd yn helaeth ar gyfer e-bost ac ystafelloedd sgwrsio (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2003). Yn ôl astudiaeth gan Ofcom (2008, fel y'i dyfynnwyd yn Honeycutt a Cunliffe, 2010), roedd 49 y cant o blant a phobl ifanc rhwng 8 a 17 oed, a

fedrai gysylltu â'r rhyngrwyd, wedi creu proffil ar safle rhwydweithio cymdeithasol.

10.22 Mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai'r rhyngrwyd a'r cyfryngau newydd annog mwy o ddefnydd o ieithoedd lleiafrifol. Mae astudiaethau'n dangos bod cymunedau a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein yn gallu chwarae rhan allweddol yn annog defnydd o'r Gymraeg. Yn ôl astudiaeth a oedd yn archwilio defnydd pobl ifanc o rwydweithiau cymdeithasol ac iaith: *'the greater the density of Welsh speakers in the social network of young Welsh speakers, the greater the opportunity and tendency for members of that network to use Welsh'* (Morris, 2007, fel y'i dyfynnwyd yn Honeycutt a Cunliffe, 2010). Mae Honeycutt a Cunliffe (2010) yn awgrymu bod safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn darparu cyfle i drafod y Gymraeg, yn ogystal â'i defnyddio. Tynnodd Cunliffe a Roberts-Young (2005) sylw hefyd at swyddogaeth rhith-gymunedau megis Perthyn a Maes-e (cymuned ar-lein sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg) fel cyfrwng i hysbysu siaradwyr Cymraeg a'u galluogi i gymryd rhan yn y gymdeithas sifil yng Nghymru ac mewn trafodaethau am faterion cyfoes a'r iaith Gymraeg. Dylid nodi fodd bynnag bod y gwaith hwn wedi'i gyhoeddi yn 2005 ac y gallai swyddogaeth cymunedau fel Maes-e fod wedi newid yn y cyfamser.

10.23 Hefyd, cydnabyddir bod rhwydweithiau cymdeithasol yn safleoedd pwysig ar gyfer datblygu normau iaith (Wei, 2000, fel y'i dyfynnwyd yn Honeycutt a Cunliffe, 2010). Daeth astudiaeth i'r defnydd o'r Gymraeg ar y safle rhwydweithio cymdeithasol 'Facebook' i'r casgliad bod siaradwyr Cymraeg yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran sefydlu normau iaith ar Facebook ac mewn fforymau ar-lein cyffelyb (Honeycutt a Cunliffe, 2010). Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y defnydd o'r Gymraeg, i ryw raddau, wedi'i *'normaleiddio'* ar Facebook, yn enwedig yn sgil yr ymgyrch lwyddiannus i gyflwyno rhyngwyneb Cymraeg drwy gyfieithiadau 'gan y dorf'. Yn ôl yr astudiaeth, sefydlwyd presenoldeb bywiog i'r Gymraeg ar Facebook.

10.24 Ymddengys bod canlyniadau rhagarweiniol arolwg diweddar o ddefnyddwyr Twitter sy'n siarad Cymraeg (Jones, Cunliffe a Honeycutt – canlyniadau rhagarweiniol) yn dangos bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr

wedi normaleiddio eu defnydd o'r iaith ar y llwyfan. O'u holi ynghylch eu rhesymau dros ymuno â Twitter, dim ond canran fechan iawn o'r 130 o bobl a holwyd (oddeutu 5 y cant) a grybwyllodd eiriolaeth iaith, neu oroesiad y Gymraeg, fel ffactor a'u cymhellodd i wneud hynny. Ymhlith y siaradwyr Cymraeg a holwyd, ymddengys mai'r rhesymau mwyaf poblogaidd dros agor cyfrif Twitter yw: presenoldeb ffrindiau ac enwogion ar y safle; pwysau gan gyfoedion; chwilfrydedd cyffredinol; a diddordeb mewn rhwydweithio cymdeithasol.

- 10.25 Ymddengys bod y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio cymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn eu negeseuon wrth 'drydar' ar Twitter. Mae dadansoddiadau cynnar o ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod unigolion yn ystyried bod rhai pynciau (megis trafod y cyfryngau Cymraeg, neu'r cyfryngau Saesneg) yn perthyn yn fwy i un iaith nag i'r llall. Roedd cynulleidfa dybiedig unrhyw neges benodol hefyd yn ffactor dylanwadol wrth benderfynu a fyddai defnyddiwr yn trydar yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddai sgysrsiau Twitter, rhwng dau unigolyn neu ragor, yn digwydd fel arfer yn yr iaith sy'n gyffredin i bawb yn y sgwrs honno.
- 10.26 Mewn astudiaeth o blant a'r Wyddeleg, argymhellodd Fleming a Debsk (2007) gyflwyno cyfleusterau cyfathrebu wedi'u rhwydweithio mewn ysgolion er mwyn rhoi cyfle i blant gyfathrebu mewn amser real â siaradwyr Gwyddeleg eraill y tu allan i'r ysgol. Awgrymwyd i hyn lwyddo wrth adfywio iaith Hawaii
- 10.27 Mae'r llenyddiaeth hefyd yn dangos bod y rhyngrwyd wedi ei gwneud yn haws cael gafael ar ddeunyddiau mewn ieithoedd lleiafrifol, sy'n fwy anodd cael gafael arnynt mewn cyfryngau print a chlyweledol traddodiadol (Wright, 2006). Mae llyfrgelloedd digidol yn enghraifft o'r modd y mae'r rhyngrwyd wedi ei gwneud yn haws cael gafael ar gyfoeth o wybodaeth a goresgyn rhwystrau rhag cyhoeddi (Deere a Cunliffe, 2009, fel y'u dyfynnwyd yn Pertot et al, 2008). Yn ôl Lu et al (2004, fel y'u dyfynnwyd yn Nichols et al, 2007), mae llyfrgelloedd digidol yn fodd o ateb y broblem o drefnu talpiauw mawr o wybodaeth a sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd. Maent hefyd yn gyfrwng ymarferol ar gyfer gwarchod ac adfywio ieithoedd lleiafrifol. Mewn erthygl am

lyfrgelloedd digidol ac ieithoedd lleiafrifol, mae Nichols et al (2007) yn trafod ac yn cynnig enghreifftiau o'r modd y defnyddiwyd meddalwedd llyfrgell digidol Greenstone i adeiladu llyfrgelloedd digidol mewn ieithoedd sy'n cynnwys iaith Hawaii (Llyfrgell Ddigidol Ulukau) a'r iaith Faori (Llyfrgell Ddigidol Niupepa).

10.28 Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y modd y mae deunydd ieithoedd lleiafrifol yn cael ei gyflwyno ar y rhyngrwyd. Roedd cymhariaeth rhwng profiadau Canada a Chymru, o ran tudalennau gwe oedd yn cynnig gwasanaethau a deunyddiau mewn iaith leiafrifol, yn tynnu sylw at yr angen i ddilyn canllawiau ac egwyddorion dylunio yn effeithiol a chyson. Rhaid gwneud hynny er mwyn lleihau'r perygl bod y ddarpariaeth yn yr iaith leiafrifol yn cael ei thanseilio gan rwystrau technolegol megis anhawster i gael gafael ar ddeunyddiau. Yn ôl y gwaith hwn, dangosodd astudiaethau o sawl gwefan yn y DU bod sefyllfa'r Gymraeg yn israddol i'r Saesneg. Daethpwyd i'r casgliad bod angen mwy o ymchwil i fonitro arferion defnyddwyr dwyieithog pan fyddant yn cael opsiynau dewis iaith, er mwyn gweld a yw'r modd y caiff deunydd iaith leiafrifol ei gyflwyno drwyddi yn cael effaith arwyddocaol ar y defnydd gwirioneddol.

10.29 Thema arall sy'n dod i'r amlwg yn y corff ymchwil cyfredol, ac sy'n berthnasol i dechnoleg electronig, yw effaith technoleg iaith ac offer iaith ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg.

10.30 Mae ehangu'r ystod o wasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg wedi'i nodi'n ffactor allweddol yn *Iaith Pawb* i annog defnyddio'r Gymraeg a'i chefnogi. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r iaith a sicrhau ei bod yn cael ei hyrwyddo ar y we ac mewn pecynnau TG newydd.

10.31 Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn, a elwir yn 'Offer iaith' (Prys, 2008, fel y'i dyfynnwyd yn LULC 11, 2008) yn cynnwys safoni termau, cronfa ddata genedlaethol o dermau a chymhorthion cyfieithu geiriadurol a pheirianyddol ar gyfer cyfieithwyr. Mae hefyd yn cynnwys '*an ICT Strategy for increasing and facilitating the use of Welsh on the internet and in IT packages*

to augment the existing list of computer resources available in Welsh... (Prys, 2008). Yn 2006, cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddogfen strategaeth, Technoleg Gwybodaeth a'r Iaith Gymraeg, oedd â'r nod o: *"ddarparu datganiad polisi cynhwysfawr a rhestr o'r hyn sy'n gorfod digwydd er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio i bob maes TG perthnasol, ac er mwyn sicrhau ei bod yn cadw i fyny â datblygiadau technolegol"*.

10.32 Mae trafodaethau ynghylch offer iaith wedi tynnu sylw at ystyriaethau ymarferol cefnogi iaith wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a chyfryngau electronig. *'Electronic language tools such as spelling and grammar-checkers, and on-line or CD dictionaries, are crucial aids for small languages'* (Prys, 2008). Mae hyn oherwydd eu bod yn cynyddu hyder yr awdur yn ei allu i ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng cyfathrebu ysgrifenedig, yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol o ran cywiro gwallau.

10.33 Yn ddiweddar mae'r Uned Technolegau Iaith yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, wedi ceisio mesur y defnydd a wneir o adnoddau electronig a ddatblygwyd ar gyfer y Gymraeg, (e.e. y Gronfa Ddata Genedlaethol o Dermau, y Termiadur a Chysgliad) er mwyn dechrau asesu eu heffeithiolrwydd o ran adfywio'r iaith. Er enghraifft, mae'r Uned wedi cofnodi 63,768 o ymweliadau (gan 21,581 o wahanol ymwelwyr) â gwefan rad ac am ddim Cysill ers Mehefin 2010. Mae hyn yn ychwanegol at y 3,000 o drwyddedau unigol cofrestredig a'r 270 o fersiynau rhwydwaith o'r meddalwedd Cysgliad llawn (Cysill + chasgliad geiriadur Cysgeir) a ddosbarthwyd. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr yn awgrymu bod llawer o bobl yn dibynnu ar yr offer gwirio er mwyn bod yn ddigon hyderus i ysgrifennu yn Gymraeg.⁴ Mae'r Uned hefyd wedi derbyn 19,089 o ymweliadau (gan 2,972 o ymwelwyr gwahanol) â'u Porth Termau yn yr un cyfnod. Mae hwn yn safle arbenigol ar gyfer cyfieithwyr a gweithwyr proffesiynol.

10.34 Fodd bynnag, yn ôl Prys (2008): *'measuring the effect of the availability of electronic resources on the use and status of a language is far more*

⁴ Data defnyddio a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Delyth Prys a'r Uned Technolegau Iaith.

difficult'. Dywed mai prin yw'r ymchwil a gynhaliwyd yn y maes hwn ac ychwanega:

'Quantifying the number of searches, downloads and sales of such products affords a quick and easy measurement of the use of electronic resources and technology in a minority language. Measuring their impact on attitudes towards the language is harder to achieve, and requires further surveys on the perceptions and attitudes of the target populations'.

- 10.35 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o brosiectau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o dechnoleg gwybodaeth cyfrwng Cymraeg. Enghraifft benodol o hyn yw'r gwaith i hyrwyddo Canolfan Rheoli Iaith (rhyngwyneb Cymraeg a meddalwedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg) ymhlith busnesau a sefydliadau yng Ngwynedd a Chonwy. Yn ôl arolwg o gleientiaid a gytunodd i gael y system wedi'i gosod ar eu cyfrifiaduron cafwyd canlyniadau positif o ran hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg. Dywedodd oddeutu dau o bob tri (66 y cant) o'r cleientiaid eu bod yn defnyddio'r Ganolfan Rheoli Iaith bob dydd. Roedd pob un yn credu y byddai'r system yn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg. Awgrymwyd hefyd y byddai'r feddalwedd yn cynyddu hyder y cleient i ddefnyddio'r iaith, a gwella safon ac ansawdd eu gwaith. Cynhaliwyd prosiectau cyffelyb i hyrwyddo Technoleg Gwybodaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith colegau, ysgolion ac unigolion yng Ngwynedd, Môn a Chonwy.

11 I Gloi

- 11.1 Mae sawl ffactor sy'n dylanwadu ar ddewis a defnydd iaith, ac mae hynny'n golygu ei bod yn anodd cynnal gwerthusiad effeithiol o bolisi iaith, heb sôn am briodoli newid i gynlluniau penodol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth o lwyddiant agweddau ar fentrau unigol megis y Mentrau Iaith, Twf a'r Mudiad Meithrin. At hynny, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd bras y mae'r llenyddiaeth ehangach am y Gymraeg a datblygiad a defnydd dwyieithrwydd yn awgrymu y byddai orau eu targedu a'u cryfhau.
- 11.2 Fodd bynnag, yn gyffredinol, ceir ddiffyg tystiolaeth empiraidd o effeithiolrwydd polisiâu unigol i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cynnal asesiad gwrthrychol o effeithiolrwydd cynlluniau, naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd. Mae hefyd yn golygu ei bod yn anodd rhoi arfarniad priodol o lwyddiant tebygol gweithgarwch yn y maes hwn yn y dyfodol.
- 11.3 Wrth gwrs, nid yw diffyg gwybodaeth gadarn, o reidrwydd, yn golygu bod mentrau wedi bod yn fethiant. Fodd bynnag, mae angen cynnal asesiad realistig i'r tebygolrwydd y bydd ymyriadau graddfa fach yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg, o ystyried y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn sgil ymchwil i newid ymddygiad. Mae angen i asesiad o'r fath ystyried graddfa'r ymyriad – a'r math o ymyriad – sydd ei angen i sicrhau newid o'r fath ar lefel genedlaethol (gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth ynghylch gwariant cyfredol ar y chwe thema yn Strategaeth y Gymraeg).
- 11.4 Dyma rai enghreifftiau o'r bylchau tystiolaeth mwyaf arwyddocaol a nodwyd gan yr adolygiad hwn:
- Safbwyntiau ac agweddau plant a phobl ifanc eu hunain ynghylch y Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall ymddygiad plentyn ddylanwadu ar arferion trosglwyddo iaith yn y cartref. Mae'n anodd cael darlun cyflawn o'r ffactorau a allai gyfrannu at ddefnydd iaith rhwng rhiant a phlentyn heb gynnwys agweddau plant tuag at eu hiaith/hieithoedd.

- Ymchwil i rôl Amgylchedd Dysgu yn y Cartref mewn perthynas â chaffael y Gymraeg.
- Ymchwil hirdymor i olrhain dylanwad y cyd-destun cymdeithasol a rôl yr amgylchedd ieithyddol wrth gaffael ail iaith.
- Ymchwil i arferion rhieni'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, fel sail ar gyfer datblygu mentrau sy'n dylanwadu'n effeithiol ar ymddygiad.
- Ymchwil ymhlith gweithwyr Cymraeg i weld a yw mentrau yn y gweithle i gynyddu'r defnydd a wneir yno o'r Gymraeg wedi bod yn effeithiol ai peidio.
- Ymchwil i gyflenwad ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg, o gymharu â chyflenwad ac ansawdd gwasanaethau Saesneg.
- Astudiaethau gwerthuso i ddangos effaith sefyllfa wrthffeithiol – beth fyddai wedi digwydd pe na byddid wedi cynnal rhyw fenter neu'i gilydd (h.y. sefyllfaoedd arbrofol neu led-arbrofol)
- Rhagor o waith i ddarganfod tystiolaeth ryngwladol berthnasol at ddibenion cymharu.
- Rhagor o ymchwil i gost a budd mewn perthynas ag ymyriadau ieithyddol.

11.5 Yn ôl y gwerthusiad cam cyntaf o laith Pawb, ym mis Gorffennaf 2007, un o'r themâu allweddol i ddod i'r amlwg oedd y diffyg tystiolaeth a'r diffyg mesuriadau i ddangos a gyflawnwyd y targedau. Ers y gwerthusiad cam cyntaf, prin yw'r dystiolaeth o unrhyw gamau i fynd i'r afael â hyn. Mae risg y gallai hyn fod yn wir am y strategaeth newydd yn y dyfodol. Argymhellir, felly, y dylai'r Strategaeth gyfan, yn ogystal â'r prif raglenni oddi mewn iddi, gynnwys cynlluniau ar gyfer gwerthuso cadarn ac annibynnol.

12 Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg

12.1 Mae'n hanfodol felly bod y Strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn cael ei gwerthuso er mwyn helpu i asesu ei heffeithiolrwydd yn erbyn ei hamcanion strategol, a gwella'r hyn a ddysgir dros amser. Er mwyn gwneud hyn, awgrymir bod fframwaith a chynllun gwerthuso yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r Strategaeth o'r dechrau'n deg. Bydd hyn yn nodi sut bydd y

Strategaeth yn cael ei gwerthuso drwy ystod o ddulliau a ffynonellau data, ynghyd ag ymchwil a dadansoddiad pwrpasol.

12.2 O gofio'r ystod helaeth o ymyriadau polisi dan sylw, bydd yn bwysig sicrhau dull cyson a chymharol o werthuso ar draws y Strategaeth. Dylai'r dull gweithredu fod ar y naill law yn ffurfiannol – er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu gydol y broses o gyflawni'r Strategaeth – ac ar y llaw arall yn adolygol – er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn dull cadarn a phrydlon

12.3 Ceir nifer o heriau yng nghyd-destun gwerthuso Strategaeth y Gymraeg:

- Darparu tystiolaeth gadarn o ganlyniadau rhaglenni'n unigol ac ar y cyd;
- Darparu dadansoddiad prydlon o'r broses/dull cyflawni;
- Pennu 'canlyniadau' mesuradwy, gan bwysleisio y dylai'r sylw fod ar y rhai sy'n fesuradwy yn unig;
- Diffinio pa elfennau o'r Strategaeth sy'n debygol o gael effeithiau y gellir eu cofnodi;
- Cynnwys rhanddeiliaid fel rhan o ddull gweithredu ar y cyd i werthuso'r Strategaeth a'r rhaglenni sy'n rhan ohoni;
- Osgoi dyblygu (ee drwy ddefnyddio data cyfredol ac adeiladu ar dystiolaeth ryngwladol);
- Nodi a llenwi bylchau mewn data;
- Cynnal y cydbwysedd priodol rhwng gwerthuso ar lefel polisi, rhaglen a phrosiect;
- Mynd i'r afael â chymhlethdod polisi (ee ystod rhaglenni; deall beth sy'n cyfrannu at lwyddiant y rhaglen; gwahaniaethu rhwng effeithiau rhaglen a ffactorau eraill);
- Datblygu sgiliau a gallu ar gyfer gwerthuso (o fewn Llywodraeth Cymru ac o fewn asiantaethau sy'n cyflawni agweddau ar y Strategaeth).

12.4 Yn benodol, dylid datblygu fframwaith gweithredu o fewn 6 mis i lansio'r Strategaeth a fydd yn:

- Nodi sut bydd effeithiau'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn cael eu cofnodi ar

wahanol lefelau (cyfranogydd unigol, prosiect/rhaglen ac yn lleol/cenedlaethol);

- Diffinio dangosyddion mesuradwy o effeithiau disgwyledig a phosib y Strategaeth, gan ddefnyddio data a gasglwyd yn genedlaethol ac yn lleol lle bynnag y bo modd. Dylai hyn gydweddu cymaint â phosib â systemau monitro perfformiad yr asiantaethau eu hunain;
- Nodi bylchau yn yr wybodaeth/data sydd eisoes wedi'u casglu ac ystyried sut y gellid dod o hyd i ddata priodol, gan ystyried pa mor ymarferol yw dod o hyd i wybodaeth ychwanegol, a'i chost, a'r budd y mae gwybodaeth o'r fath yn debygol o'i roi;
- Clustnodi rhaglen ar gyfer casglu data, ymchwilio iddo a'i ddadansoddi. Bydd y rhaglen yn cael ei chyhoeddi gydol oes y Strategaeth er mwyn llywio'r gwaith o'i datblygu a'i hadolygu.

ATODIAD 1 – Amcangyfrifon bras o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl

Crynodeb

Mae'r papur hwn yn rhoi amcangyfrif diweddar o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'n dilyn gwaith blaenorol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Hywel Jones, 2004)⁵ ac mae'n defnyddio methodoleg debyg.

Gellid ystyried bod yr amcangyfrif o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl, fel yn achos amcanestyniadau cyffredinol o'r boblogaeth, yn cynnwys dwy gydran: newid naturiol a mudo. Yn y cyswllt hwn, mae newid naturiol yn golygu marwolaeth siaradwyr Cymraeg a genedigaeth babanod a fydd naill ai'n cael eu magu i siarad Cymraeg yn rhugl neu a fydd yn gwneud hynny o ganlyniad i'w haddysg yn yr ysgol. Mae mudo yn golygu llif siaradwyr Cymraeg rhugl i mewn ac allan o Gymru.

Mae'r bwlch rhwng genedigaethau a marwolaethau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf ac, o'r herwydd, mae effaith newid naturiol i'w weld yn bitw iawn. Ar y cyfan, mae marwolaethau yn cael eu 'disodli' gan enedigaethau, er bod hyn yn dibynnu ar y tybiaethau a wnawn ynghylch addysg a magwraeth, a ph'un a fydd y rhuglder a welir yn yr ysgol yn parhau ar ôl addysg orfodol ai peidio.

Drwy amcangyfrif y bydd 19 y cant o'r holl farwolaethau dros y ddegawd nesaf yn siaradwyr Cymraeg rhugl, bydd hyn yn arwain at golled flynyddol o ryw 5,700 ar sail amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae defnyddio rhuglder disgyblion ysgol uwchradd fel procsi ar gyfer y nifer sy'n siarad Cymraeg drwy addysg a magwraeth yn rhoi rhif cyffelyb o ryw 5,500 - 5,800 o 'enedigaethau'. Felly, ar y mwyaf, gallai fod colled o **150 y flwyddyn** oherwydd newid naturiol. Serch hynny, o gofio'r amrywiant mewn ffynonellau, gallai fod yn rhesymol tybio bod 'enedigaethau' a marwolaethau yn gyfartal, ar y cyfan.

⁵ "Tarddiad amcangyfrifon bras o'r newid blynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl"

Dadansoddwyd mudo ar sail nifer o ffynonellau, ond nid oes unrhyw ffynhonnell sy'n rhoi'r darlun cyflawn, yn arbennig ar gyfer allfudo. Mae symudiadau myfyrwyr hefyd yn cymhlethu'r sefyllfa. Mae'n debygol iawn bod all-lif net yn sgil mudo, er nad yw hi'n glir i ba raddau. Drwy ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion⁶ gallwn amcangyfrif y gallai'r all-lif net yn sgil mudo fod oddeutu **1,200 y flwyddyn**. Drwy addasu'r amcangyfrifon gan ddefnyddio data o'r Arolwg o'r Llafurlu⁷ ar allu yn y Gymraeg, mae amcangyfrif arall yn awgrymu y gallai'r all-lif net fod oddeutu **2,200 y flwyddyn**. Gan ystyried gwaith arall yn y maes hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd yn ystyried y newidiadau hirdymor mewn gallu yn y Gymraeg yn ôl oed, mae'n rhesymol casglu bod rhywfaint o allfudo.

I Gloi

Daw'r papur i'r casgliad ei bod hi'n debygol y bydd colled net o siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn, yn bennaf oherwydd allfudo.

At ei gilydd, amcangyfrifir bod colled net flynyddol o oddeutu **1,200 – 2,200** yn ystod resymol o amcangyfrifon.

Fodd bynnag, mae'n amhosib rhoi swm awdurdodol oherwydd natur y data sydd ar gael. Mae 1,200 yn derfyn isaf fwy na thebyg, tra bod 2,200 yn seiliedig ar rai tybiaethau ac ar dystiolaeth brin.

Mae hwn yn faes cymhleth i'w ddadansoddi, oherwydd y gwahaniaethau yn nibynadwyedd a chwmpas y ffynonellau data. Gellid gwneud rhagor o waith i ddadansoddi'r Arolwg o'r Llafurlu neu'r arolwg AU Hirdymor (neu gyfuno cofnodion CYBLD gyda data AU), er enghraifft, yn ogystal â Chyfrifiad 2011, ond mae'n anodd gweld sut y byddai hyn yn gwella cadernid ein gwybodaeth.

Goblygiadau polisi

Mae'n werth ystyried y gwahanol elfennau ar wahân. Yr elfen lle gall polisi gael y dylanwad mwyaf yw newid naturiol neu, yn fwy penodol, y mewnlif drwy addysg.

⁶ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion 2010 a 2011

⁷ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu 2001-2010

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod effaith net newid naturiol yn bitw, oherwydd amcangyfrifir bod nifer y genedigaethau, yn fras, yr un faint â nifer y marwolaethau.

O ran mudo, prin yw'r effaith y gall polisi iaith Gymraeg ei chael ar y llif hwn oherwydd yr amrywiol resymau dros fudo a'r dylanwadau economaidd cysylltiedig. Fodd bynnag ceir effaith ar wasanaethau (e.e. S4C) ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol o effaith cronol mudo net ar y gwasanaethau hynny yng Nghymru, a'r potensial ar gyfer sylfaen defnyddwyr i wasanaethau yn Lloegr (e.e. darlledu S4C yn ddigidol dros y ffin).

Dadansoddiad manwl

1. Newid naturiol ac addysg

All-lif yn deillio o farwolaethau

*Tybiaeth wreiddiol Bwrdd yr Iaith:*⁸

Bu 33,200 o farwolaethau yn 2002. Roedd amcangyfrifon ar sail Cyfrifiad 2001 o'r ganran a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn amrywio o 17.9 y cant ymhlith y rhai 70 oed, yn codi i 19.5 y cant ymhlith y rhai 77 oed ac yna hyd at 24.7 y cant ymhlith y rhai 90 oed neu drosodd. A chymryd bod 19.5 y cant o'r 33,200 o farwolaethau yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ceir amcangyfrif o 6,500.

Data diweddaraf:

Mae'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf yn awgrymu llai o farwolaethau nag yn y tybiaethau gwreiddiol – oddeutu 30,000 o farwolaethau'r flwyddyn, gan ostwng i oddeutu 29,500 ganol y 2010au⁹. Drwy ddefnyddio dosbarthiad oedran sgiliau Cymraeg a'i gymhwyso i ddosbarthiad oedran y marwolaethau cyfredol, ceir tybiaeth bod oddeutu 18-19 y cant o'r rheini sy'n marw yn siaradwyr Cymraeg. Mae cymryd 19 y cant fel tybiaeth 'uchaf' yn rhoi amcangyfrif o **5,600 – 5,700 y flwyddyn**.

Mewnlfif yn deillio o newid naturiol yn y boblogaeth ac effaith addysg

Tybiaeth wreiddiol Bwrdd yr Iaith:

Oddeutu 31,000 o enedigaethau'r flwyddyn a chan ystyried data'r Cyfrifiad am nifer y rhai 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg a nifer y plant sy'n cyflawni asesiadau Cyfnodau Allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg, amcangyfrif o oddeutu 5,100 y flwyddyn.

Data diweddaraf:

Genedigaethau: Yn cynyddu o oddeutu 34,800 i 35,800 dros y ddegawd,⁵ sy'n ffigur uwch nag ym mhapur gwreiddiol Bwrdd yr Iaith.

⁸ Papur gwreiddiol Bwrdd yr Iaith

⁹ Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth Genedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2008
http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_population/NPP2008/NatPopProj2008.pdf

Gan ystyried ystod y ffynonellau data (gweler yr Atodiad), mae amcangyfrif effaith magwraeth ac addysg yn dibynnu ar gadernid y ffynhonnell data a'r oed wrth asesu.

Mae asesiadau yn yr ysgol gynradd yn fwy tebygol o gael eu cyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) – er bod sgiliau Cymraeg yn cael eu hasesu gan rieni i fod yn is adeg ysgol gynradd nag adeg ysgol uwchradd. Erbyn yr ysgol uwchradd, mae'r ganran a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cyd-fynd â chanran y plant ysgol uwchradd yr asesir eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl – a'r rhai sy'n astudio Cymraeg iaith Gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae hyn oddeutu 16 y cant. Felly, erbyn yr ysgol uwchradd, amcangyfrifir bod ystod o oddeutu **5,500 i 5,800** yn rhugl.

Ceir triongliad pellach o hyn gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n dangos bod oddeutu 17 y cant o bobl ifanc 16–19 oed yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif cyffelyb, os ychydig uwch. Oherwydd hyn, ymddengys bod 16 y cant yn amcangyfrif rhesymol i'w ddefnyddio, er bod cadernid yr amcangyfrif hwnnw'n dibynnu ar effaith hirdymor addysg a magwraeth ar ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl addysg orfodol.

Effaith gyffredinol newid naturiol ac addysg

Os ydym yn defnyddio'r ffigurau ysgol uwchradd fel procsi ar gyfer allbwn y system addysg a magwraeth gan rieni byddai hyn yn awgrymu, yn gyffredinol, bod marwolaethau siaradwyr Cymraeg yn cael eu disodli gan 'enedigaethau'. Mae'n awgrymu mai **150 y flwyddyn ar y mwyaf** fyddai'r golled net o siaradwyr Cymraeg rhugl erbyn hyn yn sgil newid naturiol. Serch hynny gallai fod yn rhesymol tybio bod 'genedigaethau' a marwolaethau yn gyfartal, ar y cyfan. Y prif reswm pam mae'r ffigur yn is na'r dadansoddiad blaenorol gan Fwrdd yr Iaith yw'r gostyngiad yn nifer y marwolaethau blynyddol a'r tebygrwydd is bod y rhai a fu farw yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Gan fod yn rhan fwyaf o farwolaethau yn bobl dros 65 oed, amcangyfrifir y bydd hyn yn ddigyfnewid am y degawd nesaf, fwy neu lai, heblaw bod nifer y bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn parhau i godi.

2. Effeithiau mudo

All-lif – Tybiaeth wreiddiol Bwrdd yr Iaith:

5,200 yn seiliedig ar y niferoedd a fudodd i Loegr o Gymru yn y 12 mis hyd at Gyfrifiad 2001, yn ôl grŵp oed. Yn achos y rhai sy'n 30 a throsodd, tybiwyd y byddai'r ganran ohonynt sy'n siarad Cymraeg yr un fath â'r nifer a gofnodwyd gan y Cyfrifiad. Yn achos y rhai sy'n 5-14, tybiwyd y byddai 13.9 y cant yn siarad Cymraeg (canran y disgyblion ysgol gynradd sy'n rhugl yn y Gymraeg), 12.3 y cant o bobl ifanc 15 oed (canran yn seiliedig ar y rhai sy'n sefyll TGAU Cymraeg), a ffigur mympwyol o 5 y cant ar gyfer y rhai rhwng 20 a 29 (y disgwylir iddynt fod yn fyfyrwyr sy'n dod o Loegr ac sy'n dychwelyd i Loegr, yn bennaf).

Mewn-lif – Tybiaeth wreiddiol Bwrdd yr Iaith:

Cymhwyswyd canran y siaradwyr Cymraeg ymhlith mewnfudwyr 16+ oed, h.y. 6.3 y cant, i gyfanswm y mewnfudwyr yng Nghyfrifiad 2001. Roedd hyn yn rhoi cyfanswm o 3,600.

Data diweddaraf

Yr elfen fudo yw'r anoddaf i'w mesur, yn benodol oherwydd diffyg data ynghylch yr iaith Gymraeg ar gyfer allfudwyr. Roedd tybiaeth Bwrdd yr Iaith yn seiliedig ar y rhagosodiad y byddai allfudwyr yr un mor debygol o siarad Cymraeg â'r boblogaeth gyffredinol. Ond gellid tybio bod allfudwyr yn llai tebygol o siarad Cymraeg, a cheir tystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth honno. Mae'n bosib bod pobl nad ydynt yn hanu o Gymru yn fwy tebygol o fudo allan o Gymru, tra bydd gan siaradwyr Cymraeg resymau dros aros yng Nghymru nad ydynt yn berthnasol i'r di-Gymraeg (defnyddio'r iaith mewn swyddi, yn y gymuned leol ac ati). Hefyd, ceir mater myfyrwyr: bydd canran fawr o siaradwyr Cymraeg yn mudo allan ar gyfer addysg uwch, ond bydd rhai hefyd yn dychwelyd ar ôl graddio. Nid oes gennym ffigurau awdurdodol ar gyfer y niferoedd hyn.

Mae allfudo o Gymru i weddill y DU dros y pum mlynedd diwethaf wedi amrywio rhwng oddeutu 54,000 a 56,000.¹⁰ Mae mewnfudo wedi gostwng rywfaint dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf i 56,500.

¹⁰ Amcangyfrifon mudo mewnol y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'n bosib mai'r Cyfrifiad Ysgolion yw'r ffynhonnell sy'n darparu'r wybodaeth orau i'w chymharu ynghylch union sgiliau iaith Gymraeg mewnfudwyr ac allfudwyr. Gallwn ddefnyddio'r Cyfrifiad Ysgolion i nodi plant sy'n mudo drwy dybio bod y rhai nad ydynt yn ymddangos yn y Cyfrifiad Ysgolion mewn blwyddyn ddilynol neu flaenorol wedi gadael Cymru neu wedi symud i Gymru.

Yn ôl CYBLD,¹¹ 'gadawodd' 7,400 o bobl ifanc 5-14 oed Gymru rhwng 2009-2010 a 2010-2011 (mae hyn yn cymharu ag oddeutu 6,200 o blant 0-14 oed, yn ôl ffigurau mudo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). O'r rhain, roedd 4.5 y cant yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r data'n cefnogi'r ddamcaniaeth bod siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o allfudo na'r di-Gymraeg. Os tybiwn fod y disgyblion hyn yn cynrychioli'r aelwydydd sy'n symud allan o Gymru, mae cymhwyso hyn i'r boblogaeth gyffredinol sy'n mudo yn golygu bod oddeutu **2,400 – 2,500** yn allfudo bob blwyddyn.

Gan ddefnyddio techneg gyffelyb gyda'r ffigurau mewnfudo, gallwn amcangyfrif fod oddeutu 5,800 o bobl ifanc 6 -15 oed wedi ymuno â system ysgolion Cymru o'r tu allan yn 2010 ac yn 2011. Asesodd rhieni 2.2 y cant o'r disgyblion hyn eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Unwaith yn rhagor, os tybiwn fod y disgyblion hyn yn cynrychioli'r aelwydydd sy'n symud i mewn i Gymru, mae cymhwyso hyn i'r boblogaeth gyffredinol sy'n mudo yn golygu bod oddeutu **1,200** yn mewnfudo bob blwyddyn.

Mae hyn yn awgrymu y ceir **all-lif net** o siaradwyr Cymraeg a chan ddefnyddio'r dybiaeth hon, dyma gyfradd o oddeutu **1,200 – 1,300 y flwyddyn**.

Fodd bynnag, mae'n debyg bod yr amcangyfrif hwn yn rhy isel. Mae'r awgrym bod siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o fudo na'r di-Gymraeg yn fwy tebygol o fod yn wir am deuluoedd (a phlant) nag am bobl ifanc, yn enwedig myfyrwyr. Hwn yw'r grŵp mwyaf o fudwyr, ac rydym yn amcangyfrif y bydd oddeutu 16 y cant o bobl ifanc yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Oherwydd hyn, mae'r ffigur o 4.5 y cant o'r CYBLD yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r all-lif gros. Fodd bynnag, mae'n sail ar gyfer cymharu tebyg-wrth-debyg.

¹¹ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar lefel Disgyblion 2010 a 2011

Mae gennym ddata arall am sgiliau Cymraeg mewnfudwyr. Gan ddefnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu, gallwn amcangyfrif canran y mewnfudwyr (pobl a oedd yn byw y tu allan i Gymru 12 mis yn ôl) sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r gyfres yn anwadal iawn, ond gellid gwneud tybiaeth o oddeutu 10 y cant ar gyfer y boblogaeth oedolion drwy ddefnyddio data ar gyfer y blynyddoedd mwyaf diweddar. Ar sail y cwestiwn yn yr Arolwg o'r Llafurlu ynghylch 'amlder defnydd', gallwn amcangyfrif y byddai oddeutu 60 y cant¹² o'r rhain yn siarad Cymraeg 'bob dydd' (procsi am ruglder). Mae hyn felly'n awgrymu y byddai oddeutu **6 y cant** o fewnfudwyr yn rhugl yn y Gymraeg ac mae'r ffigur hwn yn cymharu'n ffaithiol â'r ffigur o Gyfrifiad 2001 a ddangosai bod **6.3 y cant**¹³ o fewnfudwyr 16 oed neu drosodd yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hwn lawer yn uwch na'r 2.2 y cant o blant a fewnfudodd sy'n siarad Cymraeg.

Felly mae'r darlun fel a ganlyn:

Oed	Mewnlfif gros (2010)	% rhugl	All-lif gros (2010)	% rhugl
0-14	6,727	2.2%	6,172	4.5%
15-19	8,454	6% (cyfartaledd ar gyfer 15+)	5,864	?
20-24	13,770	6% (cyfartaledd ar gyfer 15+)	15,292	?
25+	27,577	6% (cyfartaledd ar gyfer 15+)	26,664	?

Yr elfen allweddol sydd ar goll yw canran y bobl ifanc ac oedolion Cymraeg eu hiaith sy'n allfudo. Gallem amcangyfrif hyn drwy ddefnyddio'r data am allu'r boblogaeth i siarad Cymraeg, ond mae'n debyg y byddai hyn yn rhoi amcangyfrif rhy uchel o'r all-lif gros ac ni fyddai'n gymhariaeth uniongyrchol. Byddai defnyddio canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg "bob dydd" o leiaf yn defnyddio'r un sail, o ran diffiniad, â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer mewnfudwyr.

Mae'r Arolwg o'r Llafurlu hefyd yn dweud wrthym, ar gyfer pobl ifanc 15–24 oed, bod effaith gronol mudo pobl ifanc yn golygu colled net ac, yn benodol, colled net o bobl sydd wedi'u geni yng Nghymru. Mae'r astudiaeth cyrchfan addysg uwch 6 mis yn dangos bod 3,000 o raddedigion a oedd yn hanu o Gymru – 22 y cant o'r garfan – yn gweithio yn Lloegr ar ôl graddio. Mae hyn yn cymharu â 1,800 o raddedigion nad ydynt o Gymru sy'n gweithio yng Nghymru. Mae'r astudiaeth cyrchfan hirdymor yn

¹² Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu 2001-2010: cymhwyso canran "siaradwyr Cymraeg yr Arolwg o'r Llafurlu" sy'n siarad Cymraeg bob dydd i'r 10 y cant o fewnfudwyr sy'n siarad Cymraeg

¹³ Ffynhonnell: papur gwreiddiol Bwrdd yr Iaith

dangos mwy o golled dros y tymor hwy. Mae 30 y cant o raddedigion o Gymru yn gweithio yn Lloegr 3.5 mlynedd ar ôl graddio, o'i gymharu â 22 y cant ar ôl 6 mis.

Mae cymhwyso'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd o'r Arolwg o'r Llafurlu¹⁴ i'r ffigurau allfudo yn rhoi'r canlynol:

Oed	Mewnlif gros (2010)	% rhugl	All-lif gros (2010)	% rhugl
0-14	6,727	2.2%	6,172	4.5%
15-19	8,454	6% (cyfartaledd ar gyfer 15+)	5,864	17%
20-24	13,770	6% (cyfartaledd ar gyfer 15+)	15,292	10%
25+	27,577	6% (cyfartaledd ar gyfer 15+)	26,664	10%
Cyfanswm llifau	56,528	3,136	53,992	5,377

Mae'r dull hwn yn rhoi all-lif net o tua **2,200 y flwyddyn**.

I Gloi

Felly, yn ôl pob tebyg, ceir all-lif net drwy fudo. Serch hynny mae problemau â'r data yn golygu ei bod yn anodd amcangyfrif yn union. Mae amcangyfrif CYBLD o **1,200 – 1,300 y flwyddyn** yn debygol o fod yn rhy isel ac mae'r amcangyfrif a fodelwyd o **2,200 y flwyddyn** yn seiliedig ar dybiaethau sydd ag ychydig iawn o sail iddynt.

3. Oedolion sy'n dysgu

Gellid gwneud tybiaeth ynghylch oedolion sy'n dysgu Cymraeg, a'r cynnydd yn y siaradwyr Cymraeg rhugl drwy hynny. Mae oddeutu 18,000 o oedolion yn dysgu Cymraeg – o wahanol allu ac i wahanol lefelau – mewn blwyddyn nodweddiadol. Nid oes gennym dystiolaeth ynghylch nifer y myfyrwyr hyn sy'n mynd ymlaen i

¹⁴ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu 2001 - 2010

ddefnyddio'r iaith yn rhugl. At hynny, pe byddem yn bwriadu cynnwys tybiaeth ar y sail honno, efallai y byddai angen i ni wneud tybiaeth ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg a fu'n rhugl un adeg ond sy'n "colli" eu gallu dros amser.

4. Effeithiau tymor hir

Aeth Hywel Jones (2009)¹⁵ ati i ddadansoddi effaith hirdymor mudo ar siaradwyr Cymraeg, yn hytrach na'r effaith flynyddol tymor byr, gan ddefnyddio data astudiaeth hirdymor y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dangosodd bod llai o siaradwyr Cymraeg a oedd yn oedolion ifanc mewn Cyfrifiadau dilynol nag y byddid wedi eu 'disgwyl' yn sgil y proffil mewn Cyfrifiadau blaenorol

Dywedodd:




"Ymddengys bod y nifer is na'r disgwyl o oedolion ifanc a oedd yn siarad Cymraeg yng Nghyfrifiad 2001 yn ganlyniad allfudo, yn hytrach na methiant gan unigolion i gynnal eu gallu i siarad Cymraeg.

Erbyn 2001, roedd 1 o bob 5 o blant Cymru ym 1971 wedi symud i Loegr."

Drwy gymharu data Cyfrifiad 2001 a'r Arolwg o'r Llafurlu 2001 gyda'r Arolwg o'r Llafurlu 2010 (siartiau isod), awgrymir bod y ddamcaniaeth hon yn dal dŵr o hyd. Nid yw'r lefelau cynyddol o siarad Cymraeg ymhlith y rhai a oedd rhwng 3 a 15 oed a rhwng 16 a 19 oed yng Nghyfrifiad 2001 wedi trosglwyddo i gynnydd sylweddol ymhlith oedolion. Gallai hyn adlewyrchu allfudiad y boblogaeth myfyrwyr a ddisgrifiwyd uchod, sy'n rhoi ychydig mwy o goel ar y dybiaeth bod dros 2,000 yn allfudo bob blwyddyn.

Felly, er bod lefel siarad Cymraeg ymhlith y rhai sydd rhwng 0 a 19 oed yn uwch na charfannau hŷn, bydd rhaid disgwyl i weld a fydd hynny'n esgor ar drwch o oedolion ifanc, neu hyd yn oed bobl ganol oed (ar ôl addysg AU), sy'n siarad Cymraeg.

¹⁵ "Siaradwyr Cymraeg: y berthynas rhwng eu proffil oed ac allfudo"



Aeth Hywel Jones ati hefyd i ddadansoddi canlyniadau dau arolwg: Arolwg Cymdeithasol Cymru ym 1992 ac arolygon Bwrdd yr Iaith ynglŷn â Defnydd Iaith 2004-06. Er bod yr arolygon hyn yn gwbl annibynnol ar ei gilydd, a'i bod hi'n aneglur i ba raddau y gellir eu cymharu, mae gwneud hynny'n awgrymu gostyngiad o oddeutu 46,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod o 13 o flynyddoedd. Mae hyn yn gyfwerth â cholled net o oddeutu 3,500 y flwyddyn.

5. Meysydd posib pellach i'w hystyried

Gellid archwilio rhagor ar y data mudo, er ei bod hi'n anodd gweld sut y gellid rhoi'r cyfan at ei gilydd i ddatblygu amcangyfrif cadarn. Gallai'r meysydd gwaith gynnwys archwiliad o'r elfen hirdymor yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; dadansoddiad o arolwg hirdymor y rheini sy'n ymadael ag AU; neu ddadansoddiad o Gyfrifiad 2011 y flwyddyn nesaf. Hefyd, gallai fod modd defnyddio cysylltiadau rhwng data i ddadansoddi cyrchfan siaradwyr Cymraeg o CYBLD, o ran addysg bellach ac uwch. Fodd bynnag, byddai angen ystyried diben a manteision y gwaith hwnnw.

Dangosydd	Y diweddaraf a'r duedd	Amcangyfrif, ar sail nifer genedigaethau bob blwyddyn (34,800 – 35,800)
Disgyblion ysgol gynradd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 7.6)	13.7% ond wedi bod o gwmpas 13%, neu ychydig yn is na hynny, am y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf. Mae oddeutu 8% yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref ac mae'r ffigur hwn wedi bod yn gostwng.	4,750 – 4,900
Disgyblion ysgol uwchradd sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 7.14)	15.9% ac wedi cynyddu ychydig yn y blyneddau diwethaf. Mae 8.8% yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref.	5,550 – 5,700
Asesiadau Cyfnod Allweddol 1 drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 7.12)	21.9% cynnydd cyson ers y ffigur o 18% ym 1998	7,650-7,850
Asesiadau Cyfnod Allweddol 2 drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 7.13)	19.6% cynnydd cyson ers y ffigur o 17.5% ym 1998	6,800 – 7,000
Asesiadau Cyfnod Allweddol 3 drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 7.20)	16.3% cynnydd cyson ers y ffigur o 12% ym 1998	5,700 – 5,850
Canran y dysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf ym Mlwyddyn 11 (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 7.18)	16.3% cynnydd cyson ers y ffigur o 12% ym 1997	5,700 – 5,850
Ymgeiswyr TGAU yn eu sefyll drwy gyfrwng y Gymraeg (Cyfrifiad Ysgolion 2011: tabl canlyniadau terfynol 2.7)	11% ymgeisiadau CBAC drwy gyfrwng y Gymraeg, fel canran o'r holl ymgeiswyr. Petai disgyblion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o sefyll mwy o arholiadau TGAU na disgyblion di-Gymraeg,	3,800 – 3,900

	byddai'r ffigur hwn yn rhy uchel. Fodd bynnag, ni fydd pob siaradwr Cymraeg yn sefyll arholiadau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg.	
Canran y myfyrwyr AU a gofnodwyd yn rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl. (cofnod myfyrwyr yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch)	15%. Bydd dylanwad dosbarth economaidd-gymdeithasol ar y ffigur hwn ac nid yw'n cynnwys y myfyrwyr hynny o Gymru sy'n derbyn AU y tu allan i Gymru. Gan y bydd siaradwyr Cymraeg sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn aros yng Nghymru, mae'r amcangyfrif hwn yn rhy uchel.	5,200 – 5,370
Arolwg o'r Llafurlu – canran y rhai rhwng 16 a 19 sy'n siarad Cymraeg bob dydd (Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu)	17% yn 2010, ond mae hon yn gyfres anwadal (blynyddoedd blaenorol: 16%, 10%, 19%)	5,900 – 6,100
Arolwg o'r Llafurlu – canran y rhai rhwng 1 a 15 sy'n siarad Cymraeg bob dydd (Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu)	29% yn 2010, wedi bod yn debyg ers rhai blynyddoedd	10,100 – 10,400
Arolwg o'r Llafurlu – canran y rhai rhwng 1 a 15 sy'n siarad Cymraeg bob dydd neu bob wythnos (Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu)	44% yn 2010, wedi bod yn debyg ers rhai blynyddoedd	15,300 – 15,800

ATODIAD 2 - Y cyfanswm sy'n cael ei wario ar hyn o bryd yng Nghymru ar bolisiâu ar gyfer y Gymraeg (heb gynnwys addysg)

Nod strategol 1: Cymraeg yn y gymuned

Cyfanswm gwariant: £2.49m

Nod strategol 2: Trosglwyddo'r iaith mewn teuluoedd

Cyfanswm gwariant: £1.94m

Nod strategol 3: Plant a phobl ifanc

Cyfanswm gwariant: £1.10m

Nod strategol 4: Gwasanaethau i'r dinesydd

Cyfanswm gwariant: £0.18m

Nod strategol 5: Y gweithle


Cyfanswm gwariant: £0.06m

Nod strategol 6: Seilwaith

Cyfanswm gwariant: £0.38m

Gwariant arall

Cyfanswm gwariant: £0.15m



Cyfeiriadau

Aitchison, J. W. a Carter, H., 2004, *Spreading the Word: The Welsh Language and the 2001 Census*, Talybont, Y Lolfa.

Baker, C., 2011. *Bilingual Education and Bilingualism: Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (5^{ed} Rhifyn), DU: Multilingual Matters.

Baker, C a Lloyd Roberts, E., 2003. *Datblygiad Ieithyddol Cyn Ysgol: Effaith Gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin*. Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Beaufort Research 'Arolwg Omnibws 2011' (2011) (Tystiolaeth wedi'i darparu gan S4C).

Bialystok, E., 2011. *Bilingual Brains are More Healthy*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.guardian.co.uk/technology/2011/jun/12/ellen-bialystok-bilingual-brains-more-healthy>. [Cyrchwyd: 31 Awst, 2011].

BBC, 2011. *Defnydd bach o wasanaethau Cymraeg*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.bbc.co.uk/newyddion/15197251>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Canolfan Ymchwil Ewrop a Cwmni Iaith (2005) *Rhwydweithiau Cymdeithasol a Defnydd Iaith Pobl Ifanc* <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/Cymraeg%2fcyhoeddiadau%2fCyhoeddiadau%2f3561.pdf>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg – Prosiect Ymchwil 2010-11: *Defnydd Mewnol o'r Gymraeg mewn Gweithleoedd*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/defnyddio/Pages/DefnyddMewnolGymraegMewnGweithleoedd.aspx> [Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2011]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Iaith: y Ganolfan Cynllunio Iaith), 2010. *Defnydd mewnol o'r Gymraeg mewn Gweithleoedd*. [Ar-lein] Ar gael yn [http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Ymchwil%20Gweithleoedd%20Adroddiad%20Terfynol%20Tach%202010%20\(.pdf](http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Ymchwil%20Gweithleoedd%20Adroddiad%20Terfynol%20Tach%202010%20(.pdf) [Cyrchwyd: 23 Awst 2011]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Beaufort Research), 2008a. *Arolwg Omnibws o Siaradwyr Cymraeg*. [Ar-lein]. Ar gael yn: [http://www.byig-wlb.org.uk/English/publications/Publications/B2850-2%20Arolwg%20Omnibws%20o%20siaradwyr%20Cymraeg%20\(2008\)%20-%20Bwrdd%20yr%20Iaith.pdf](http://www.byig-wlb.org.uk/English/publications/Publications/B2850-2%20Arolwg%20Omnibws%20o%20siaradwyr%20Cymraeg%20(2008)%20-%20Bwrdd%20yr%20Iaith.pdf) [Cyrchwyd: 31 Awst 2011]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2008b. *Arolygon Defnydd Iaith 2004-06*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Arolygon%20Defnydd%20Iaith%202004-06.pdf> [Cyrchwyd: 24 Awst 2011]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Bianchi, T), 2008c. *Arolwg o'r Wasg Brintiedig Cyfrwng Cymraeg* [Ar-lein] Ar gael yn: www.byig-wlb.org.uk [Cyrchwyd: 16 Rhagfyr 2011]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, (Deudraeth Cyf), 2008d. *Adroddiad ar y prosiect i hyrwyddo Technoleg Cymraeg a Chanolfan Rheoli Iaith i Fusnesau a Sefydliadau yng Ngwynedd a Chonwy*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/Pages/index.aspx> [Cyrchwyd: 23 Awst]

Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2007-2010. *Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog: Adroddiadau Diwedd Prosiect*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/defnyddio/Pages/AstudiaethauAchos.aspx> [Cyrchwyd: 20 Medi 2011].

- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Canolfan Ymchwil Ewrop, Cymru), 2007a. *Dangosyddion Defnydd Iaith: Adroddiad Terfynol*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/5216.pdf> [Cyrchwyd: 23 Awst 2011]
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Gathercole et al), 2007b. *Trosglwyddo Iaith mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru..* [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Adroddiad%20Gathercole%20Cymraeg%209.2.07.pdf> [Cyrchwyd 23 Awst 2011]
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Wavehill Consulting), 2006 *Gwerthusiad o Draweffaith Prosiect Estyn Llaw*.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Roberts, B), 2006. *Ymchwil i'r Defnydd a wnaed o'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/4156.pdf> [Cyrchwyd: 23 Awst 2011]
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Beaufort Research), 2006c. '*Living Lives Through the Medium of Welsh Study: Summary Report*'. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/pages/publicationitem.aspx?puburl=/English/publications/Publications/4155.pdf>
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006d. *Technoleg Gwybodaeth a'r Iaith Gymraeg: Dogfen Strategaeth* [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/3964.pdf> [Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2011]
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2004. *Dadansoddiad o'r Defnydd ar y Llinell Gyswllt â'r Gymraeg 2000-2004*. [Ar-lein] Ar gael yn: www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau [Cyrchwyd: 24 Awst 2011]
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003): '*Newid Ymddygiad: Defnydd a Chanfyddiadau*'. Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Pages/PublicationItem.aspx?puburl=/Cymraeg%2fcyhoeddiadau%2fCyhoeddiadau%2f3714.pdf> [Cyrchwyd: 22 Awst 2011]
- Campbell, C. (2000) '*Menter Cwm Gwendraeth: Astudiaeth Achos mewn Cynllunio Iaith Gymunedol*' yn Williams, C.H. (gol.), Adfywio Iaith: Polisi a Chynllunio yng Nghymru, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tt.247-91.
- Cardinal, L., Lang, S. a Sauvé, A., 2005. *Apprendre à travailler autrement : la gouvernance partagée dans le domaine du développement des langues officielles au Canada*, Ottawa: Y Comisiynydd Ieithoedd Swydddogol.
- Chipongian, L., 2000. *The cognitive Advantages of Balanced Bilingualism*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://brainconnection.positscience.com/topics/?main=fa/cognitive-bilingualism> [Cyrchwyd: 22 Medi, 2011].
- Churchill, R.(-) *The earlier the better?* [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.primarylanguages.org.uk/policy_research/research_and_statistics/spotlight_on/the_earlier_the_better.aspx . [Cyrchwyd: 31 Awst 2011].
- Cunliffe, D a Roberts-Young, D, 2005. '*Online design for bilingual civil society: a Welsh Perspective*' *Interacting with Computers* 17 (1), tt. 85-104.
- Cwmni Iaith, 2008. *Y Ddarpariaeth o ran Dewis Iaith yn Sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru*. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru.
- Cyngor Iaith Hafan (2010): *Prosiect 'Mae Dy Gymraeg Di'n Grêt'*. Mewn: Cyfarfod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg (95), 20 Tachwedd 2010, Abertawe.

- De Houwer, A., 2007. *Parental language input patterns and children's bilingual use*. Applied Psycholinguistics 28, tt. 411–424.
- Deere, A. a Cunliffe, D., 2009. *Bilingual Websites in Jurisdictions Requiring Minority Language Use: Effective Implementation of Policies and Guidelines*
- Dolan, P et al., 2010. *MINDSPACE: Influencing behaviour through public policy: the practical guide* [Ar-lein] Llundain: Institute for Government, UK Government Cabinet Office, Ar gael yn: <<http://www.instituteforgovernment.org.uk/images/files/MINDSPACE-practical-guide.pdf>> [Cyrchwyd 19/1/2011]
- Edwards, VK a Newcombe, LP (2003) *Gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Cynllun Twf*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Edwards V. a Newcombe L.P, 2005. *When School is not enough: new initiatives in intergenerational language transmission in Wales*, International Journal of Bilingual Education and Bilingualism, 8 (4), tt. 298-312
- Enparantza, J L A ("Txillardegi"), 2001. *Hacia una Socio-Lingüística Matemática* (Sortzen, Euskal Soziolinguistika Institutua Sortzen)
- Fishman J, 1991. *Reversing Language Shift: multilingual matter*, Clevedon: Multilingual Matters Ltd
- Fleming a Debski, 2007. 'The Use of Irish in Networked Communications: A Study of Schoolchildren in Different Language Settings' Journal of Multilingual and Multicultural Development 28, (2).
- Gathercole V. a Thomas E.M., 2009. *Bilingual first-language development: dominant language takeover, threatened minority language take-up*, Bilingualism: Language and Cognition 12 (2), tt. 213-237
- Glyn, J., 2010. 'Asesiad o Effeithiolrwydd Strategaethau Ieithyddol Cymunedol yng Nghymru', Aberystwyth: Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth.
- Grin, F et al., 2002. *Support for minority languages in Europe*. Lwcsembwrg: Y Comisiwn Ewropeaidd : (DG EAC).
- Hickey, T, 1999. *Parents and Early Immersion: Reciprocity Between Home and Immersion Pre-school*. International Journal of Bilingual Education and Bilingualism 2 (2) tt. 94-113.
- Honeycutt, C a Cunliffe D, 2010. 'The use of the Welsh language on Facebook' Information, Communication & Society 13 (2), tt. 226-248
- Hughes, L M et al, 2009. *Language issues in the community pharmacy: a perspective from Wales*. The International Journal of Pharmacy Practice 17 (3), tt. 157-63.
- Hughes, C a Madoc-Jones, I., 2005. *Meeting the Needs of Welsh Speaking Young People in Custody*, The Howard Journal of Criminal Justice 44 (4), tt. 374–386
- Irvine, F et al. (2008) *Twf ac Ymlaen: Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Jones K. ac Ioan G. (2000) *Mentro Ymlaen – Arolwg o Waith y Mentrau Iaith*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Jones, K a Morris, D (2005) *Welsh Language Socialization within the Family*. Gweithdy mewn Cynhadledd ar Addysg mewn Iaith Leiafrifol, 18 Mehefin 2006.

- Jones, H., 2008. *The Changing Social Context of Welsh: A Review of Statistical Trends*. International Journal of Bilingual Education and Bilingualism. 11, 5 (Medi), 541-57
<http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13670050802149176>
- Jones, H., 2007. *The implications of changes in the ages of Welsh speakers and their spatial distribution*. Gwerddon. 1, 2 (Hydref).
- Jones, H., 2005. *The intergenerational transmission of the Welsh language: an analysis of the 2001 Census results for Wales*, Yn: Cynhadledd BSPS, 2009, Prifysgol Sussex.
- Jones, R. Cunliffe, D., a Honecutt, C. heb ei gyhoeddi eto. *Accommodating Resistance? The case of Welsh Twitter*.
- Kaufmann, J, 2009. *Dylanwad Cyfieithu ar y Pryd ar y Defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd*. Ph.D Bangor: Prifysgol Bangor.
- King, K. A., 2001. *Language revitalisation processes and prospects: Quichua in the Ecuadorian Andes*. Clevedon: Multilingual Matters Ltd.
- Kollmuys ac Agyeman, 2002. 'Mind the gap', Environmental Education Research. 83(3), tt. 239-260.
- Lewis, G a Richards, A (2004) *Adolygiad i Fesur Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Rhwydwaith Gweithgareddau Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/index.aspx?categoryid=38> [Cyrchwyd: 22 Medi 2011].
- Llais Defnyddwyr Cymru (Thomas, R), 2010. *Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg*. [Ar-lein] Ar gael yn <http://www.consumerfocus.org.uk/wales/files/2010/10/Gwasaniaithau-report1.pdf> [Cyrchwyd 31 Awst 2011]
- Llais Defnyddwyr Cymru, 2010. *Tystiolaeth Ysgrifenedig i Grŵp Rapporteur y Pwyllgor Menter a Dysgu*. Ar gael yn: <http://www.consumerfocus.org.uk/wales/files/2010/10/Evidence-to-Enterprise-and-Learning-Committee-Welsh.pdf>. [Cyrchwyd: 23 Awst 2011]
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Roberts et al), 2004. *Adroddiad am Astudiaeth o Ymwbyddiaeth o'r Gymraeg yn y Ddarpariaeth Gofal Iechyd yng Nghymru* [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/415/ACF33A4.pdf> [Cyrchwyd 24 Awst 2011].
- WISERD (Mann, R), 2011. *Welsh speakers and Welsh language provision within the public sector*. [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.wiserd.ac.uk/wp-content/uploads/2011/07/WISERD_RRS_004.pdf [Cyrchwyd: 24 Awst 2011].
- Llywodraeth Cymru 2010. 'Iaith Fyw: Iaith Byw'. *Ymgynghoriad ar Strategaeth ar gyfer y Gymraeg*. Dogfen Ymgynghori. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://cymru.gov.uk/consultations/welshlanguage/wlsconsultation/?skip=1&lang=cy> [Cyrchwyd: 22 Medi 2011].
- Llywodraeth Cymru, 2007. *Gwerthusiad Iaith Pawb: Cam 1*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://cymru.gov.uk/topics/welshlanguage/research/firstiaithpawb/?skip=1&lang=cy> [Cyrchwyd 23 Awst 2011]
- Llywodraeth Cymru, 2003. *Ymateb i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar TGCh yng Nghymru Wledig* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://new.wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2003/25.02.2003ictinruralwales?lang=cy>
- LULCL II 2008. *Proceedings of the Second Colloquium on Lesser Used Languages and Computer Linguistics*: Bozen-Bolzano, 13-14 Tachwedd 2008.

- Madoc-Jones, I., 2004. *Linguistic sensitivity, indigenous peoples and the mental health system in Wales*, International Journal of Mental Health Nursing (3), tt. 216-224
- Misell, A., 2000. *Ehangder, Natur a Digonolrwydd Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*. Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Eisteddfod Genedlaethol 2010. *Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Iaith Gymraeg*.
- Nichols, D. M. et al, 2007. 'Digital libraries and minority languages' New Review of Hypermedia and Multimedia 11 (2), Rhagfyr 2005, tt. 139-155
- O'Riagain, P. et al, 2008. *Young people and Minority Languages: Language use outside the classroom*. Dilyn: Y Ganolfan Iaith ac Astudiaethau Cyfathrebu, Coleg y Drindod.
- Patterson, J. L., 2002. *Relationships of expressive vocabulary to frequency of reading and television experience among bilingual toddlers*. Applied Psycholinguistics 23, tt. 493–508
- Pearce, S, 2008. *The Role of Language in Regeneration: The Case of Communities First in Wales* [Ar-lein] Ar gael yn: http://extra.shu.ac.uk/ppp-online/issue_3_121108/article_5.html
- Pertot, S et al, 2008. *Rights, Promotion and Intergration Issues for Minority Languages in Europe*. Hants: Macmillan Publishers.
- Price, R, 2010. *Senses of Welsh Identity: Further Education Student's perceptions of Wales and Welshness*. Contemporary Wales 23 (1), tt. 17-35 (19).
- Prys, C, 2010. *The use of Welsh in the Third Sector, Contemporary Wales* 23 (1), tt. 184-200
- Prys, D, 2008. *The Ultimate Welsh language survival kit: an overview of ten years of language technology work at Canolfan Bedwyr*. Mercator Media Forum 10 (1) tt. 4-10
- Roberts G.W. et al. 2007. *Language awareness in the bilingual healthcare setting: A national survey*, International Journal of Nursing Studies 44, tt. 1177–1186
- Romaine, S, 2002. *The Impact of Language Policy on Endangered Languages*, International Journal of Multicultural Societies 4 (2).
- Swyddfa'r Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol 2006. *Towards Real Equality of Languages: Language of Work within Federal Institutions of New Brunswick* [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.ocol-clo.gc.ca/html/stu_etu_nb_062006_e.php [Cyrchwyd: 22 Medi 2011].
- Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2010. *Annual Population Survey*. Colchester: UK Data Archive
- State University, 2010. *Second Language Learning Bilingualism and English as a Second Language – Early Literacy Development of English Language Learners (ELLs), Language-of-Instruction Studies*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://education.stateuniversity.com/pages/1789/Bilingualism-Second-Language-Learning-English-Second-Language.html>. [Cyrchwyd: 31 Awst 2011].
- S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (Beaufort Research), 2006. *'Living Lives Through the Medium of Welsh Study: Summary Report'*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/pages/publicationitem.aspx?puburl=/English/publications/Publications/4155.pdf> [Cyrchwyd: 23 Awst 2011]
- Te Puni Kokiri 2010. *'Impact of selected Maori websites on the Maori language'* Parongo Fact Sheet: 011 – 2011. [Ar-lein] Ar gael yn: www.tpk.govt.nz
- Thomas E.M. a Roberts D.B, 2011. *Exploring bilinguals' social use of language inside and out of the minority language classroom*, Language and Education 25 (2), tt.27-28

Trywydd, 2009. *Arolwg o ddefnydd a gweithgareddau hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg*

Tŷ'r Arglwyddi, 2011. *Behaviour Change, Science and Technology Committee.*

Ar gael yn:

<http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201012/ldselect/ldsctech/179/17902.htm>

Williams C. H., 2004. *Iaith Pawb: The Doctrine of Plenary Inclusion*, Contemporary Wales 17, tt.1-27

Williams, C. H. (2010) "From Act to Action in Wales" in D. Morris (gol.), *Welsh in the Twenty-First Century*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, tt. 36-60.

Wright, S., 2006. 'Regional or Minority Languages on the WWW' *Journal of Language and Politics* 5 (2). tt. 189-216